

ECO'R WYDDFA

RHIF 15

MAI 1977

PRIS: 10c.

Hofelau Stryd Goodman

LAWR Â NHW — MEDDAI POBL LLANBERIS



BYDD POBL Llanberis eu hunain yn ymgymryd â'r gwaith o ddymchwel murddunod Stryd Goodman ddiwedd mis Mehefin os nad yw'r addewid a roddwyd iddynt gan Gyngor Arfon i gael ei gwireddu.

Dyna'r penderfyniad a wnaed mewn Cyfarfod Agored a gynhaliwyd yn y Ganolfan yn Llanberis nos Iau, 14eg Ebrill. Yn bresennol 'roedd panel o gyngorwyr lleol ynghyd ag Aelod Seneddol Arfon, Dafydd Wigley, yn wynebu cwynion a chwestiynau'r pentrefwyr. Prif destun y noson, a barnu oddi wrth yr amser a roddwyd i'w drafod a grymusder y siarad arno, oedd cyflwr a dyfodol Stryd Goodman.

Darllenodd Dafydd Wigley, AS lythyr a dderbyniodd oddi wrth Mr. D.L.Jones, Clerc Cyngor Arfon, yn egluro mai polisi presennol y llywodraeth o gwtogi ar wario yw'r unig reswm nad yw'r teirw dur eisoes wedi rowlio dros Stryd Goodman. Yn ôl y Cynghorydd Francis Jones, mae'r holl waith papur angenrheidiol wedi'i gwblhau. Daw'r polisi o gwtogi ar wario i ben ym Mehefin a gobeithir y caiff Cyngor Arfon rwydd hynt i ddefnyddio'r arian sydd yn barod yn eu coffrau. Gobaith

trigolion Llanberis yw mai Stryd Goodman sydd ar ben rhestr blaenoriaethau'r Cyngor — gobaith y bydd rhywbeth pendant, cwbl barhaol yn cael ei wneud ar ôl blynnyddoedd o drin a thrafod ar wahanol lefelau.



I FOD yn deg â Chyngor Arfon hefyd, eiddo Tlodion Rhuthun oedd y tai tan tua deunaw mis yn ôl, ac fel mae'n wybyddus i bawb bellach — mae "gwaith papur" mewn achosion fel hyn yn cymryd amser.

I fod yn deg â Chynghorwyr Llanberis hefyd, 'does dim amheuaeth na fyddai'r tai yma i lawr fis-oedd yn ôl pe baent heb gael eu llyffetheirio oherwydd diffyg arian.

COFIWCH AM FAI 5ed

MAE'R amser wedi dod unwaith eto i ni ddewis ein cynrychiolwyr ar Gyngor Sir Gwynedd. Mai 5ed yw'r dyddiad. Mae *Eco'r Wyddfa* yn apelio ar i bawb fynd i roi eu pleidlais — mae'n ddyletswydd cymdeithasol arnom i gyd i bleidleisio ac i ddewis cynrychiolydd. Dylai pawb roi ystyriaeth fanwl iawn i bob un o'r ymgeiswyr, pob un ohonynt, a'u hedmygu am sefyll i'ch cynrychioli. Nid gwaith hawdd fydd hyn — ac mae pob un ohonynt yn sylweddoli hyn. Felly'n syml,

PLEIDLEISIWCH OS GWELWCH YN DDA.

PWYSIG. Cafodd pob un o'r ymgeiswyr wahoddiad i gyflwyno adroddiad byr yn yr Eco y mis hwn ynghyd â llun. Mae'r mwyafrif wedi manteisio ar y cyfle ond os digwydd i chwi weld ond enw a chyfeiriad ymgeisydd — yr ateb yn syml i hyn ydyw — na dderbyniwyd adroddiad. Nid bai yr Eco yw hyn.

....PARADWYS I LYGOD MAWR

rhai drysau yn agored, llechi, cerrig a gwydr ar y lloriau y tu allan a thu mewn i'r tai, y lleithder ar y waliau'n amlwg a'i arogl oeraidd yn llenwi'r lle. Mae'r planciau a welir ar ambell ffenest yn dystiolaeth o ymdrech a wnaeth y Cyngor rywdro i geisio atal tresbaswyr, — ond yn ofer. Mae adfeilion fel rhain yn atynfa naturiol i blant i chwarae ac hefyd yn baradwys i lygod mawr sy'n bwydo ar beth o'r sbwriel sy'n cael ei daflu yno ac ar ben y graig y tu ôl i'r stryd.

Tystiodd sawl un yn y cyfarfod iddo weld llygod mawr tu mewn ac o gwmpas y tai. ➡



ECO'R WYDDFA

RHIF 15


MAI 1977

Golygydd:
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.

Ffôn: Caernarfon 3719

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

(O dud. 1) Gwelodd Mrs. Brenda Roberts rai yn y twll-dan-grisiau yn ei thŷ hi, sydd dros hanner can llath o'r tai a ddymchwelir. Dywedodd Mr. Gwynfor Williams, Bryn Derw ei fod yn teimlo'n gryf ar y mater a'i bod yn iawn i'r bobl gael gwybod am yr hofelau yma sy'n torri calon pobl y cylch. "Torcalonnus" oedd gair Mr. Cledwyn Jones, Afon Terrace i ddisgrifio'r holl



Tu mewn i un o'r tai

Mrs. Brenda Roberts sydd wedi dioddef oddi wrth fudreddi Stryd Goodman



daflu sbwriel sy'n digwydd yno. Mynegodd llawer un bryder ynglŷn â'r peryglon o anafiadau i blant yn ogystal â'r perygl o afiechyd ar raddfa fwy yn y gymdogaeth. Atgoffwyd y cyfarfod gan Mr. Ken Jones o'r clefyd disentri a gafwyd yn Llanberis ychydig flynyddoedd yn ôl ac o'r posibiladau o rywbeth cyffelyb eto yn y dyfodol yn deillio o Stryd Goodman. Anogwyd Dafydd Wigley i anfon llythyr at Glenc Cyngor Arfon yn pwysleisio'r perygl i ieuchyd yn yr adfeilion ac yn ei gymell i wneud rhywbeth ymarferol i bontio'r amser o hyn i Fehefin.

Un o'r tystion mwyaf grymus ei haraith oedd Mrs. Brenda Roberts sy'n byw gyda'i theulu yn 23 Stryd Goodman ers deunaw mlynedd. Siaradai gydag arddeliad un wedi cyrraedd pen ei thennyn. Er fod system ddŵr y stryd wedi'i thrwsio erbyn hyn, mae Mrs. Roberts yn cofio, gyda digalondid, yr amser pan oedd y traeniau i fyny'r stryd wedi'u llenwi â phob ysbwriel a budreddi. Oherwydd fod ei thŷ hi ar y gwas-tad ar waelod yr allt llanwyd cwteri ei thŷ â phethau fel plisg wyau, pennau pysgod, papur tŷ bach, a gwaeth. 'Roedd hithau hefyd yn fawr ei chondemniad o'r rhai sy'n dal i daflu ysbwriel yn gwbl anghyfrifol a thrwy hynny yn peryglu ieuchyd y cylch. Dywedodd hefyd ei bod yn poeni'n arw am Miss Maggie Williams sy'n byw ar ei phen ei hun yn 30 Stryd Goodman, ac sydd dros ei phedwar ugain mlwydd oed. Ei thŷ hi yw'r agosaf at y tai yr arfaethir eu dymchwel. Mae peryglon hynny ynddo'i hun yn amlwg, ond mae pobl hefyd yn taflu ysbwriel ar y graig yn union uwchben tŷ'r hen wraig. Dywedodd Mr. Cledwyn Jones iddo ei gweld sawl gwaith yn crio ar ôl i bethau ddisgyn ar do ei thŷ o'r dympan gan mor simsan yw'r wal a godwyd ar ymyl y graig i geisio dal y 'sbwriel yn ôl.

Mae trigolion cylch Stryd Goodman yn benderfynol o weithredu y tro hwn. Gwelant nad oes ganddynt y cyfle i ymfalchio yn eu hardal tra bo honno'n cael ei llygru'n gyflym. Tybed nad oes achos digon teilwng yma i newid rhywfaint ar y polisi drwy roi caniatâd i Gyngor Arfon ddefnyddio'r arian i warchod buddiannau ac ieuchyd y gymdeithas yn Llanberis? Neu, a yw'r polisi ei hun yn bwysicach na'r bobl? Gobeithiwn am ateb buan a ffafriol i'r broblem.

LLYTHYRAU

Y Dalar Deg,
Llanrug.

Annwyl Mr. Golygydd,

Y TYNNWR LLUNIAU

Mae Mrs. Mair Roberts, Cheadle Hulme yn gofyn am hanes y llun. Nid wyf yn hollol sicr ond credaf mai Mr. Tom Roberts, Glandwr Teras, Clwt-y-bont, ydi'r dyn. Mae'n debyg iawn i lun a welais ohono yn ei siwt fyddin.

Ynglŷn â Guy Hughes, gallaf fod yn sicr. 'Roedd yn gefnder imi. Ei dad oedd Dr. John Hughes (Jones), Tŷ Mawr, Clwt-y-bont, - brawd hynaf fy nhad. Gwyneth Vaughan, y llenor enwog, oedd ei fam. 'Roedd Guy yn un o bed-war o blant Dr. a Mrs. Hughes. Arthur oedd yr hynaf, a ymfudodd i'r UDA ac wedyn i Batagonia lle mae un o'i blant, Mrs. Irma Hughes de Jones yn Olygydd 'Y Drafod', cylchgrawn Cymraeg yr Ariannin. Guy oedd yr ail fachgen, ac ymsefydlodd fel ffotograffydd ym Mhwlheli ac a fu farw yno rhyw ddwy flynedd yn ôl. 'Roedd dau blentyn arall, sef Laura a Roy Bennet Hughes, (y Bennett yn dod o ochr eu mam). Sylwer fod y teulu wedi gollwng y Jones. 'Roedd Nain Clwt-y-bont, a hanai o deulu Griffith Ellis, Nant, wedi rhoi ail gyfenw i'w bechgyn i gyd fel y gallent ollwng y Jones os dymunent. 'Roedd Dr. Emyr James Jones, Ysbyty Mon ac Arfon, hefyd yn gefnder i Guy.

Yr eiddoch yn gywir,
W.A. Jones.

Rhoslan,
Cricieth.

Annwyl Olygydd,

Llongyfarchiadau i 'Eco'r Wyddfa'. Defnyddir y llythyren 'D' (wedi ei dyblu) i hysbysebu un math o gwrw. Caniatewch i mi ei threblu i ddisgrifio'ch papur - Deniadol, Destlus a Difyr.

Yn eich rhifyn mis Ebrill ceir Mrs. Roberts, Cheadle yn holi am "y ffotograffwr Guy Hughes, Clwt-y-Bont". Ysgwn i ai yr un ydoedd a Guy Hughes a fu'n ffotograffydd ym Mhwlheli, ond a fu farw yn ddiweddar?

Yr oedd ef (os cofiaf yn iawn) yn fab i Gwyneth Vaughan, awdur 'O Gorlannau y Defaid' ac yn frawd i Arthur Hughes (Patagonia?) a golygydd 'Cywyddau Cymru' (1908).

Yn gywir iawn,
Guto Roberts.

CYFRANIADAU

£5: Mrs. Dilys Baylis - Llanberis

£3: Mr. a Mrs. W.M. Jones, Rhuddlan, (Cwm-y-glo gynt)

£1: Di-enw, Cwm-y-glo; Mrs. Myfanwy Closs Hughes (Closs Parry - Fachwen gynt); Mr. John Parry, Peterborough - Canada; Mr. R. Davies, 4 Oakleigh Avenue, Timperley, Sir Gaer.

£1: Mrs. Maggie Griffiths, 31, Stryd Newydd, Tŷ Ddewi, (gynt o 1 Maes Eilian, Dinorwig).



Parc Isaf,
Llanrug.

Annwyl Olygydd,

Fel cyn-chwarelwr o chwarel Dinorwig, teimlaf gywilydd bob tro yr af i hen fynwent Llanrug. Mae yno gofeb wedi ei chodi gan ei gyd-chwarelwyr i Mr. Robert Parry, Ceunant, Llanrug, - Llywydd cyntaf Undeb y Chwarelwyr (o blith y chwarelwyr) Gogledd Cymru yn 1874.

Mae'r gofeb wedi ei chodi i gofio ei aberth diflino dros ei gyd-chwarelwyr, ond mae ei chyflwr yn druenus. Gofynnaf am arweiniad darllenwyr yr Eco sydd â chysylltiad â hen chwarel Dinorwig. A yw yn bosibl creu cronfa fechan i dacluso'r garreg goffa hon?

Yn gywir,
J. Emlyn Jones.

O.N.: Er mwyn codi pwyllgor, ewch i gysylltiad ag Emlyn Jones, Parc Isaf, Llanrug.

DEWCH I

SIOP THOMAS PRITCHARD IRONMONGER

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS Ffôn 206

am nwyddau a chelfi
a bob math i'r cartref

.....

Carpedi, Ieino, Paent
Valspar a Crown
Papur papuro, Tsieni,
Nwyddau Trydan a llawer
MWY.....

OLL AM BRISIAU
RHAD!

BARGEINION TOPDEC
bob mis

Y DEUNYDD I
LAW'R GOLYGYDD
ERBYN MAI 18fed.

LLANRUG

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa, nos Fawrth, 12fed o Ebrill, gyda Mrs. N. Roberts, Anedd Wen, yn y gadair. Dangosodd Mrs. Eurwen Thomas beth o'r gwaith gweu a wneir mewn ffatri fechan yn hen ysgol Llandinorwig. Cafwyd noson hwyliog iawn ganddi yn dweud ei hanes yn cychwyn efo'r gwaith gweu gyda pheiriant yn Llundain. Diolchwyd iddi gan Mrs. Evans, Lloc.

Cydymdeimlwyd â'r Trysorydd Cynorthwyol: Mrs. Mair Jones, Ogwen yng ngwaeledd ei gŵr, a dymunwyd adferiad buan iddo.

Mrs. G.M. Jones a Mrs. Enid White-side Thomas, fydd yn cynrychioli'r gangen yn Aberystwyth ar y 7fed o Fai.

Paratowyd te gan Mrs. Lovatt, Brwynog, Mrs. Mary Roberts, Bedw Gwynion a Mrs. Davies, Plas Gwyn a diolchwyd iddynt gan Mrs. Beth Ann Williams, Disgwylfa.

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol fydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth o fis Mai, ac erfynnir am bresenoldeb yr holl aelodau i bleidleisio ar Bwyllgor a Swyddogion.

Bydd gwibdaith fin nos ym mis Gorffennaf.

PLAID CYMRU — Cyfarfod Cymdeithasol gafwyd nos Wener, 1af o Ebrill gyda Mr. W.A. Jones yn y gadair. Croesawyd Mrs. Pat Larsen, Ymgeisydd Swyddogol y Blaid am sedd ar Gyngor Gwynedd ar Fai 5ed. Paratowyd lluniaueth gan Miss Phyllis Ellis a Miss Mary Roberts.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr. a Mrs. Glyn Jones, Glan Padarn, ar enedig-aeth Gwyn, brawd i Gwen.

PRIODAS RUDEM — Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. John Humphreys, Caer Maen, ar ddathlu 40 mlynedd o briodas. Priodwyd hwy ar Mai 17, 1937 yn Eglwys y Plwyf, Llanrug. Mae iddynt un mab, y Dr. David John Humphreys, sydd yn athro yng Ngholeg Brenhinol Milfeddygol, y Brifysgol yn Llundain. Dymunwn yn dda iddynt am lawer blwyddyn hapus a dedwydd eto.

CYMDEITHAS CHWIORYDD, CAPEL MAWR — Nos Fercher, Ebrill 6ed, cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Nansi Roberts, Anedd Wen. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael yn yr ysbytai ac yn eu cartrefi. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Gaynor Williams, Penterfyn a Mrs. Myfi Roberts, 2 Tai Plastirion. Diolchwyd iddynt gan y llywydd. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 5ed o Fai.

UNDEB Y MAMAU — Cynhaliwyd Gwasanaeth Gŵyl Fair yn Eglwys Sant Mihangel yn ddiweddar, ac ymunwyd yn y gwasanaeth gan aelodau Cwm-y-glo. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Llywyddwyd yn y cyfarfod wedi'r gwasanaeth gan Mrs. Williams, Y Rheithordy a hi hefyd oedd yn gyfrifol am y te. Diolchwyd gan Mrs. Owen, Isfryn, Cwm-y-glo. Cynhaliwyd cyfarfod yn y Rheithordy hefyd i wneud trefniadau ar gyfer y Noson Goffi sydd i'w chynnal er budd Cronfa Ymchwil i'r Cancr. Llywyddwyd gan Mrs. Williams, Y Rheithordy ac agorwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Rheithor. Diolchwyd i Mrs. Williams am y te gan Mrs. Jones, Lyndale.

CYDYMDEIMLAD — Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Llew Jones, Ystâd Afon Rhos, ar farwolaeth tad Mrs. Jones, ym Mrynrefail, a thaid annwyl Eilir.

YN Y DWYRAIN CANOL — Mae Mr. Meuryn Roberts, Park Villa wedi derbyn pob rhifyn o *Eco'r Wyddfa* yn Dubai. Ei fam, Mrs. Jennie Roberts, aeth â rhifyn Mawrth iddo! Mwynhaodd Mrs. Roberts fis o wyliau gyda'i mab, a chroesawn hi adref.

Derbyniwyd gair gan Meuryn yn dweud mor dderbyniol a diddorol yw'r *Eco* ac fod Y Pakistans, Yr Arabiaid a'r Indiaid yn cael golwg arno! Diolch am y llythyr, Meuryn, a chofion cynnes.

DAMWAIN FLIN — Drwg gennym glywed am y ddamwain flin a ddaeth i ran Miss A.C. Jones, Glanllyn, cyn bennaeth Ysbyty Gallt y Sil. Dychwelai o'r Waunfawr ar ôl bod yn gwneud cymwynas pan syrthiodd oddi ar ei beic ac anafu ei hwyneb a'i haelodau. Da yw cofnodi ei bod yn gwella yn foddhaol.

BEDYDD ESGOB — Brynhawn Sul y Blodau gweinyddwyd y Sacrament o Fedydd Esgob i'r rhai canlynol o Eglwys Sant Mihangel: Miss Janet Williams a Mr. J.G. Williams, Gwydryn Newydd; Tecwyn Ellis Jones, 8 Rhos Rug a Kenneth Wyn Griffiths, Tan y Fron.

GWASANAETH CYD-ENWADOL — Gweinyddwyd Offeren gyd enwadol yng Nglan Moelyn ar Nos Iau Cablyd. Gweinyddwyd y Sacrament gan y Rheithor a chymerwyd rhan gan y Parch. G. Brewer a thraddodwyd yr anerchiad gan y Parch. W.O. Roberts.

MEWN YSBYTAI — Mae llawer o'r pentref mewn gwahanol ysbytai. Ein dymuniadau am adferiad buan i Miss Dilys Jones, Crawia; Miss Owen, Rhos Ddu; Mrs. Frances Jones, Cartrefle; Mr. John Williams, 49 Glanffynnon a Mr. J.T. Jones, Greuor. Gobeithiwn y bydd i Mrs. Griffiths, Fron Ganol gael llwyr feddyginiaeth ar ôl triniaeth fawr mewn ysbyty yn Lerpwl. Anfonwn ein cofion hefyd at Mr. T.J. Jones, Crawia sydd ym Mhlas Maesincla.

Croesewir Mr. R. Jones, Ogwen yn ei ôl ar ôl bod yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo yntau.

NEWYDDION Y SEINDORF — Dymuniadau gorau'r Seindorf a'r Pwyllgorau i Mr. Charles W. Jones a'r teulu a symudodd i fyw i Fangor. Mae Charles yn parhau'n aelod o'r Seindorf. Croesewir aelod newydd o Fangor hefyd, sef Miss S. Pritchard, wyres Mr. a Mrs. H. Pritchard, Snowdon View. Bu ei thad, Mr. Gordon Pritchard yn aelod flynyddoedd yn ôl cyn ymuno â'r Heddlu. Dymunir yn dda iddynt hwythau ar eu symudiad i Fangor. Ar hyn o bryd mae'r Seindorf yn ymarfer erbyn cystadleuaeth a gynhelir yn Buxton ar Fai 1af. Dymuniadau gorau iddynt.

PARTI JIWBILI, HEOL YR ORSAF — Nos Fawrth, Ebrill 5ed daeth nifer o ferched sydd yn byw yn Heol yr Orsaf a'r cylch cyfagos at ei gilydd i'r Neuadd Goffa i drafod y posibilrwydd o gynnal parti i'r plant i ddathlu Jiwibili y Frenhines. Penderfynwyd cael parti a dewiswyd pwyllgor i'w drefnu. Cadeirydd: Mrs. C. Jones, 3 Nant y Glyn, Ysgrifennydd: Mrs. C. Jones, 11 Nant y Glyn; Trysorydd: Mrs. D. Jones Llys Orwig. Y dyddiad i'w gofio yw Mehefin 7fed yn yr Ysgol Gynradd. Mae'n agored i blant i fyny i 18 oed sy'n byw yn Heol yr Orsaf, Ystâd Tal y Bont, Nant y Glyn, Tai Plastirion, Ffordd Bethel hyd at Ysgol Brynrefail ac ar hyd "Lôn Groes" at y Neuadd Goffa. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth tuag at y parti.

CYNGOR CYMUNED

Etholwyd Mrs. G. Chick yn Gadeirydd y Cyngor. Hi yw'r ferch gyntaf i ddal y swydd. Etholwyd Mr. R.T. Pritchard, Llanrug yn Is-Gadeirydd. Mae sedd wag yn bodoli o hyd yng Nghwm-y-glo. (Haws dweud na gwneud?)

YSGOL FEITHRIN

Dewiswyd Mrs. Ann Llwyd yn athrawes i'r Ysgol Feithrin i olynu Mrs. Linda Jones a wnaeth waith mor ardderchog gyda'r plant yn ystod ei



Ysgol Feithrin Llanrug yn cael eu Parti Nadolig.

dwy flynedd. Diolch felly i Linda a phob llwc i Ann.

Mae'r ysgol yn trefnu taith gerdded i gasglu arian tuag at gael offer ar y 7fed o Fai. Maent yn gobeithio cerdded tua 9 milltir ac os oes rhywun yn teimlo fel helpu'r achos, cysylltwch â Mrs. Ann Llwyd, 23, Glanffynnon, Mrs. Eileen Jones, 60 Glanffynnon, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

YMDDEOLIAD PRIFATHRO

Ar ddiwedd yr wythnos hon (Ebrill 29ain) bydd Mr. Cledwyn Williams yn ymddeol o'i swydd fel Prifathro'r Ysgol Gynradd, wedi un mlynedd ar ddeg o wasanaeth ymroddgar i blant y pentref. Dymuniadau gorau'r fro am ymddeoliad hir a dedwydd i Mr. Williams a'i briod.

CYSTADLEUAETH ARALL YR ECO

FAINT o ferched yn yr ardal sydd wedi dweud mewn gêm bêl-droed rhywdro "Mi faswn i yn gwneud yn well na hwnna." Wel gallwch brofi eich pwynt y flwyddyn yma.

Ar gais Carnifal Llanrug cytunodd yr Eco i gyflwyno cwpan/tarian mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu ganddynt yn ystod yr wythnos Mehefin 12-19. Y gystadleuaeth? Ia, timau pêl-droed merched y gwahanol bentrefi. Ewch ati yn ddiymdroi i ddewis eich timau a gyrru eich enwau i Mr. Bryn Jones, Y Fedwen, Stryd yr Orsaf, Llanrug.

Mae'r Eco yn fodlon iawn cefnogi y Carnifaliau i gyd mewn amser — dim ond i chwi drefnyddion feddwl am gystadleuaeth ddiddorol, ac anarferol lle y caiff y fro i gyd yrru tîm i gystadlu.

Cofiwch am Gemau Giamocs Carnifal Llanberis eto y flwyddyn hon. Anfonwch at Mr. Lal Jones, Stryd Newton, Llanberis.

CANLYNIADAU'R ARHOLIAD YSGRIFENEDIG O DAN NAWDD CYFARFOD YSGOLION DOSBARTH CAERNARFON

Yr Arholwr oedd y Parch. Owen Lloyd BA, Brynrodyn, Groeslon. Gwobrwyir y plant a ganlyn yn y Gymanfa Ganu yng Nghapel Engedi, Caernarfon, ddydd Sul, Mai 1af.

DOSBARTH DAN 9 OED: Iona Roberts, Pen-y-graig; Einir Parry, Ceunant; Carys Jones, Tanycoed; Vaughan Hughes, Tanycoed; Paul de Boo, Tanycoed; Susan Lloyd Jones, Llanrug; Caryl Pugh, Llanrug; Dafydd Meredydd Jones, Llanrug; Nia Wyn Jones, Llanrug; Glenda Roberts, Tanycoed; Christine Jordan, Tanycoed.

DOSBARTH O 10 — 11 OED: Huw Dyfrig Parry, Seilo; Gwyn Parry, Waunfawr; Nigel W. Griffiths, Llanrug; Delyth Wyn Jones, Llanrug; Aled Jones Llanrug; Martin Roberts, Pen-y-graig

DOSBARTH O 11 — 14 OED: Michael Wyn Parry, Waunfawr; Gwawr Maelor, Bontnewydd; Enid Wynne, Tanycoed; Thomas John Pritchard, Waunfawr; Owain Rhys ap Elwyn, Engedi; Vernon Oliver, Bontnewydd.

DOSBARTH O 14 — 18 OED: Esyllt Maelor, Bontnewydd; Sian Eirian Hughes, Bontnewydd

Enillwyr y medalau am y papurau gorau yw Michael Wyn Parry ac Esyllt Maelor.



Yn y llun, gwelwn Meuryn a Mrs. Roberts wedi dod ar draws Arab bychan yn yr anialwch. Anfonwyd ef i ennill ei 'geiniog' drwy olchi a phlicio llond twb o foron a rhyw ffrwythau. Cai ddŵr o'r pistyll gerllaw.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS !

(Rydym yn arbenigo mewn teisenau Priodas)

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL**

BRYN-REFAIL

CLWB IEUENCTID

Ymhlith gweithgareddau'r clwb yn ddiweddar cafwyd noson o sleidiau gan Mr. E. Welsby, Tremallt. Roedd y sleidiau yn cynnwys darluniau o ynysoedd y Canary lle bu Mr. a Mrs. Welsby ar wyliau rai blynyddoedd yn ôl. Mwynhaodd pawb y noson a'r darluniau diddorol. Gobeithiwn gael ychwaneg o ddarluniau tebyg a ddiolchwyd i Mr. Welsby gan arweinydd y Clwb, Mr. John E. Williams, Bethel. Cynhaliwyd arwerthiant gan aelodau'r Clwb ar Fawrth 24ain. Daeth tyrfa dda ynghyd a gwerthwyd popeth bron. Enillwyd y raffl oedd Mrs. Euronwy Roberts, Tremellian (basgedaid o fwyd) a Mrs. Ann Parry, Gorffwysfa (bocs siocled). Am ddyfalu'r nifer cywir o bys mewn potel, Delyth Roberts, Tremellian enillodd y gamp. Gwnaed elw o £40.11 tuag at y Clwb Ieuenctid.

O'R YSBYTY

Yr ydym yn falch o ddeall fod Mr. Colin Wager, Y Llythyrdy wedi gwella ar ôl bod yn Ysbyty'r Royal, Lerpwl am naw wythnos.

Gobeithio y gwelwn ef yn y siop yn fuan iawn.

MARWOLAETH

Ddydd Mercher, Ebrill 13eg yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw un o drigolion hynaf y pentref, Mr. William Foulkes Williams, Glanffrwd yn 82 mlwydd oed. Roedd yn gymeriad tawel a chadarn a mwyn ei gyfarchiad bob amser. Bu'n ffyddlon iawn i'r Eglwys ym Mrynrefail - yn y moddion ac yn arbennig felly ynglŷn â gweithrediadau gyda'r adeiladau. Roedd hefyd yn aelod selog o Glwb yr Efail. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Mrs. Nellie F. Williams, ei ddau fab Mr. Rol Williams, Waunfawr a Mr. Ifan Wyn Williams, Rhosmeirch, ei ferch Mrs. Cathrin Jones, Llanrug a'u teuluoedd, a hefyd ei chwaer Mrs. Jennie Roberts, Creigle. Bu'r angladd cyhoeddus ddydd Sadwrn, Ebrill 16eg a gwasanaethwyd gan y Parch. Glyn Meirion Williams, Moelfre a'r Parch. W.O. Roberts, Llanrug.

PRIODASAU

Dydd Mercher, Mawrth 30ain, yng Nghaernarfon, priodwyd Miss Siân

Grace Jones, merch Mr. a Mrs. Elwyn Jones, 1 Trem Eilian a Mr. Andrew Abbott, mab Mr. a Mrs. E. Abbott, Pontybodkin ger Yr Wyddgrug. Bydd y pâr ieuanc yn ymgartrefu ym Metws-y-Coed lle mae'r priodfab yn gwasanaethu gyda'r heddlu.

Yng Nghapel M.C. Brynrefail, Sadwrn y Pasg, Ebrill 9fed, bu priodas Miss Gwenda Williams, merch Mr. a Mrs. Wilbert Williams, 'Marino', a Mr. Terence Richard Onions, mab Mr. a Mrs. Henry Onions, Croesoswallt. Gwasanaethwyd gan y Parch. Glyn Meirion Williams, B.A., Moelfre, a'r organyddes oedd Mrs. Lowri Prys Williams, Brynrefail.

CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu 9 Trem Eilian ar ymadawiad Mr. Harold Williams (gynt o Lwyn Celyn) a fu farw yn Llanberis ddydd Gwener, Ebrill 1af. Bu'r angladd ddydd Mawrth dilynol gyda'r Parch. Angell Jones, Bangor yn gwasanaethu.

GŴYL Y GROGLITH

Cynhaliwyd y Cyfarfod Pregethu Blynnyddol yng Nghapel M.C. Brynrefail ddydd Gwener y Groglith. Y pregethwr gwadd oedd y Parch. D.R. Lewis, B.A., Abergelle. Gwein-



yddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn oedfa'r pnawn. Llywyddwyd yn y cyfarfodydd gan Mr. R.W. Evans, Ty'n Buarth.

Y GYMANFA

Cynhelir Cymanfa Eglwys Presbyteraidd Dosbarth Deiniolen eleni yn Eglwys Ysgoldy, ddydd Sul, Mai 1af. Yr arweinydd cerddorol fydd Mr. Trefor Ellis, Llanberis. Bydd rhai o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y pnawn. Trefnir bws yn gadael y pentref am 1.30.

CLWB YR HENOED

Cyfarfu Clwb yr Efail nos Fawrth, Ebrill 5ed, pryd y cafwyd noson ddifyr o ymddiddanion ymhlith yr aelodau. Rhoddwyd y lluniau gan Miss Hughes, Gorswen a Mrs. Foulkes, Bryn Derw. Nos Fawrth, Ebrill 19eg mwynhaodd yr aelodau gwmni Mr. George Morris, Llanrug ynghyd â Mrs. Elizabeth Foulkes, Haulfryn mewn sgwrs a chân, stori a rhai atgofion. Y gwest-wragedd am y noson oedd Mrs. Knox, Siop Elidir a Mrs. Maxwell, Bro Dawel.

GWYRFAI 5: Brynrefail, Clwt-y-Bont, Deiniolen, Dinorwig, Llanrug, a Phenisarwaun.



ALUN WYN EVANS
(55, Pentre Helen, Deiniolen)
LLAFUR

ANRHYDEDD OEDD cael fy enwebu gan Ganghennau y Blaid Lafur Llanrug a Deiniolen fel Ymgeisydd.

Rwy'n 50 oed, ac yn briod. Yn enedigol o Ddeiniolen lle derbyniais fy addysg. Euthum i weithio i Chwarel Dinorwig am ugain mlynedd. Ar hyn o bryd 'rwy'n gweithio gyda'r Cynllun Cynhyrchu Trydan. Gan fy mod yn hanu o'r fro, 'rwy'n wybyddus iawn o'r holl broblemau sydd yn ein wynebu. Rhaid paratoi ar eu cyfer, cyfrifoldeb annatod o ddyletswyddau Cynghorydd Sir.

Ymddiddorais mewn gweithgareddau Llywodraeth Leol, a bûm yn flaenllaw yng ngwaith fy Undeb. Braint oedd cael fy ethol yn Gadeirydd Cyfrinfa Dinorwig ar Bwyllgor Gwaith Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Cymerais hefyd ddiddordeb yn holl fudiadau diwylliannol ac addysgiadol y gymdogaeth. Gwasanaethaf ar wahanol Bwyllgorau er lles Oedolion ac Ieuenctid yr ardal.

Pe'm dewisir, braint fyddai cael eich gwasanaethu, a rhoddwn o'm LLAFFUR, ac o'm holl DDONIAU, hyd eithaf fy ngallu.



GWYN OLIVER JONES
(58 Pentre Helen, Deiniolen)

Mae'n bleser gennyf fod yn Ymgeisydd yn yr etholiad hon. Rwy'n ddiolchgar am yr ymddiriedaeth a roddwyd ynof a'r cydweithrediad parod a dderbyniais.

Mae'n gyfrifoldeb arnaf i sefyll er mwyn cryfhau'r egwyddor y credaf mor gryf ynddi, sef bod aelod o Gyngor yn atebol yn gyntaf i'w ardal a'i phobl yn hytrach na charfan fechan ohonynt. Pan wrthodwyd ymgeisyddiaeth Plaid Cymru imi tanseiliwyd yr egwyddor hon, er imi ennill y sedd yn 1973 gyda 800 o bleidleisiau, ac yn arbennig felly pan wnaethpwyd y penderfyniad heb ofyn am adroddiad o'm gwaith, ac er i'm henw fod ar dros 90% o'r papurau enwebu a ddaeth i law oddi wrth yr aelodau.

Safaf ar sail fy effeithiolrwydd fel cynghorydd sirol (gweler fy anerchiad). Credaf mewn sefyll yn gryf dros iawnderau, hawliau a buddiannau'r etholaeth. Mae'r amser a'r profiad gennyf a gofynnaf am y cyfle i ddal i weithio drosoch.



PAT LARSEN
(Llygad-yr-Haul, Penisarwaun)
PLAID CYMRU

Fe'm ganed yn Rhiwlas; bûm yn byw ym Mangor ac yr wyf ym Mhenisarwaun ers 18 mlynedd.

Ymdrechaf i alw ym mhob tŷ yn bersonol cyn Mai 5ed; os methaf, diffyg amser fydd yn gyfrifol.

Wrth ganfasio, gwelaf mai materion fel a ganlyn sy'n eich poeni: (a) Anawsterau gyda chaniatâd cynllunio. (b) Angen mwy o arwyddion ffyrdd. (c) Y ffyrdd bach yn cael eu hesgeuluso. (ch) Gormod o'n pobl ifanc yn cael eu hyfforddi yn athrawon ac yna yn methu cael swyddi. (d) Ai'r Ward hon ynteu Ward arall fydd yn manteisio ar y trethi a delir gennym yn sgîl Cynllun Trydan Dinorwig? (dd) Telir miloedd o bunnoedd o drethi gan y stadau tai newydd yn y fro; a yw'r fro yn cael lles o'r trethi hyn? (e) Goleuadau.

Pe'm hetholid, gwnawn fy ngorau i ddatrys ein problemau, a gallaf eich sicrhau na fyddaf yn ddistaw na distŵr ar y Cyngor rhag i eraill fanteisio.

STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2796

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA
LLANRUG
FFÔN

CAERNARFON 2790

LLANBERIS



Yda'ch chi'n cofio'r hen lun mis diwethaf o Lanberis. Dyma i chi lun arall, wedi ei dynnu o'r banc. Diolch i Mrs. A.M. Evans, Bron Eifion.

YR AELWYD

Dymuna'r Aelwyd fynegi ei gwerthfawrogiad o lafur y Mr. Lal Jones, T.J. Roberts a Gwyn Williams gyda'r tîm pêl droed a fu o fewn trwch blewyn i ennill Cwpan Pantyfedwen am yr eildro'n olynol. Efallai y daw'r cwpan yn ôl y flwyddyn nesaf! Hei lwc!

CLIRIO'R AWYR

Dyna a gaed mewn cyfarfod arbennig a drefnwyd gan Blaid Cymru yn ddiweddar. Caed panel yn cynnwys Dafydd Wigley, A.S., Trefor W. Williams (Cynghorydd Arfon a Gwynedd), Francis Jones (Arfon) a Ken James Jones (Cymuned) i drafod unrhyw gwestiynau oedd yn poeni yr ardalwyr. Llywiwyd y noson gan Mr. Islwyn Jones (Ysgrifennydd y Cyngor Cymuned). Trefnwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs. Ann Pritchard a Mr. a Mrs. Bert Parry. Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gangen ym mis Mai pryd y disgwylir Wil Aaron i roi sgwrs dan y pennawd 'Sgwrs Cardi'.

CANOLFAN CHWARAEON

Cafodd aelodau o Adran yr Urdd (Pentre) gyfle y diwrnod o'r blaen i ymweld â'r Ganolfan Chwaraeon, Plas Antur, yn Llangefti. Cawsant gyfle i nofio, i chwarae Badminton a thenis bwrdd. Cawsant lond bol o sgolodion cyn mynd adre! Trefnwyd y daith hon yn glo i dymor y gaeaf gan yr arweinwyr Mr. Bert Parry a Miss Meira Jones.

OEDFA GYMUN

Daeth cynulliad hyfryd i'r oedfa Gymun a drefnwyd gan y Cyngor Eglwys ar fore'r Groglith yng Nghapel

Gorffwysfa gyda'r Parch. H.J. Hughes yn arwain yn y gwasanaeth. Cynorthwywyd ef gyda'r elfennau gan y Mri. Idwal Ll. Roberts a Gwynfor Williams. Gwnaed casgliad at Gymorth Cristnogol. Traddodwyd y fendith gan weinidog yr eglwys.

DRAMA

Bu aelodau'r Cwmni Drama yn brysur y mis hwn eto. Roeddynt yn cymryd rhan mewn cyfarfod arbennig a drefnwyd gan Theatr Fach Eryri i dalu teyrnged i Huw Lloyd Edwards, y dramodydd. Cynhaliwyd y cyfarfod yr wythnos ddiwethaf, a chaed perfformiadau teilwng a chynulliad da.

GWAELEDD

Bu nifer o'r ardalwyr yn yr ysbyty yn ystod y mis, Mrs. Julie Sellers, Myrddin Pritchard, Evan Evans, ac Evan Wilson Hughes. Dymunir adferiad llwyr a buan iddynt oll.

MARW

Bu farw Owen Emrys Griffith, Stryd yr Wyddfa, yn ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau oll yn eu colled.

PRIODAS

Ar ddydd Llun y Pasg, Ebrill 11eg, yn Eglwys St. Padarn, priodwyd Idris Parry-Jones, Dinorwic St., Caernarfon ac Anne Parry, Plas Tirion, Llanberis. Pob hapusrwydd a bendith iddynt yn eu cartref yn Llanrug.

PENBLWYDD HAPUS

Penblwydd Hapus i Mrs. Catherine Roberts, 9 Stryd Turner pan fydd yn 80 oed ar Fai 31. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu.

GWYRFAI 6: Llanberis, Nant Peris, Cwm-y-glo, Bro Rhyddallt



FRANCIS JONES
(3 Maes Padarn, Llanberis)

LLAFUR

Mae yn bleser ac yn anrhydedd gennyf gyflwyno fy hun fel ymgeisydd yn yr etholiad yma.

Hoffwn ddiolch i chwi am y cyfle a gefais dros y blynyddoedd i ennill y profiad sydd yn angenrheidiol i wasanaethu ar y Cyngor Sir.

Yr wyf yn ymwybodol iawn o anghenion yr ardal a'r trigolion. Sylweddolaf fod problemau enfawr ym myd addysg, diweithdra, ffyrdd a chynllunio yn y Sir, a bydd gofyn rhoi cyfraniad sylweddol i'r rhain.

Er hynny, teimlaf fod yn rhaid sicrhau llais cryf yn yr Etholaeth yma. Pryder mawr imi ydyw y problemau sydd yn canlyn y cynllun trydan. Mae yn dra phwysig i chwi ddewis cynrychiolydd egniol, sydd yn ddiduedd yn ei ymgynghoriad â'r Bwrdd Trydan.

Rwy'n sefyll fel Sosialydd ac yn eich sicrhau na fu fy naliadau gwleidyddol o unrhyw rwstr imi ond yn hytrach yn gymorth i gynrychioli pawb o bob plaid yn ddiwahân.



TREVOR WYN WILLIAMS
(Boderwydd, Llanberis)

Rwyf wedi eich cynrychioli ar y Cyngor am y flwyddyn a hanner ddiwethaf ar ôl ennill y sedd mewn is-etholiad. Hefyd rwyf yn eich cynrychioli ar Gyngor Arfon ers 1973 a Llanberis ar Gyngor Gwyrfa am rai blynyddoedd cyn hynny. Amser barnu yw etholiad, ac felly dyma gyfle i bawb ddangos a chadarnhau eu hymddiriedaeth ynof fel y cynghorydd presennol, neu benderfynu ar newid.

Ni chredaf fod lle i wleidyddiaeth mewn Cynghorau lleol. Yn fy marn i, dylai cynghorydd weithio er lles yr ardal a'i phobl. Yn y modd yma rwyf wedi gweithredu ers deng mlynedd fel cynghorydd ac yn yr un modd y bwriadaf weithredu yn y dyfodol. Rwyf wedi gwneud fy ngorau i bawb tros y deng mlynedd yma, llwyddo yn y mwyafrif o'm hymdrechion, ond methu ambell dro.

Fel bob amser, edrychaf ymlaen yn ffyddiog am eich cefnogaeth werthfawr.

Ras Fawr Pen yr Wyddfa

Y TREFNIADAU

DYMA'R trefniadau ar gyfer Ras Pen yr Wyddfa 1977: Mae'r ras yma fel y gwyddoch yn cael ei rhedeg a'i threfnu gan hogia lleol dan nawdd Carnifal Llanberis.

Y dyddiad fydd **Dydd Sadwrn, Gorffennaf 16 1977.** Amser cychwyn: 15.30. Man cychwyn: Y Bont newydd rhwng y ddau lyn. Man gorffen: Fel 1976 ond y tro hwn yn nghylch y Carnifal.

CEFNOGAETH

Mae'r gefnogaeth leol wedi bod yn anhygoel. Addawyd arian hael, defnyddiau a chyfleusterau gan gwmnïau a masnachwyr lleol.

Dywed y trefnyddion fod yn rhaid cyfyngu nifer y cystadleuwyr dros 18 i 200. Byddant yn cael eu dewis yn ôl eu profiad.

Cyfyngir y nifer o dan 18 i 50. Pwysleisia'r trefnyddion na ddylai NEB DIBROFIAD gynnig. Cofiwch fod y ras yn 11 milltir i fyny ac i lawr mynydd uchaf Cymru a Lloegr. Cofiwch hefyd fod y record yn sefyll fel 1 awr 12 munud 5 eiliad a gobeithir torri hon y flwyddyn yma!

CLYBIAU

Bydd nifer o brif glybiau rhedeg Prydain yn cystadlu y tro yma am gwpan flynyddol Gwesty Victoria. Beth am dîm lleol?

Trefnir bwffe yn y Victoria i'r holl gystadleuwyr wedyn. Cysylltwch â: Mr. Ken Jones, 10, Glanrafon, Nant Peris, Gwynedd.


GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol



MODURDY MENAI



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

SIBRYDION o'r YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

COLLED I'R YSGOL

Yr wythnos yma bydd Mr. R.G. Ellis yn ymddeol o'i swyddi fel Dirprwy-Brifathro a Phennaeth Ffiseg yr ysgol. Y mae Mr. Elfyn Thomas y prifathro wedi ysgrifennu teyrnged iddo i'r Eco (gweler isod). ond hoffwn ar ran cyn-ddisgyblion yr ysgol dalu teyrnged ychwanegol iddo. "Fel athro yr hyn oedd yn ennyn edmygedd ei ddisgyblion tuag ato oedd ei ynni a'i gariad tuag at ei swydd. Yr oedd cywirdeb a thrylwyrdeb yn holl bwysig iddo, a'i degwch yn delio gyda'r rhai ohonom oedd yn troseddu yn gyson. Fel dyn cofiaf amdano fel "gŵr bonheddig" yng ngwir ystyr y gair.

MR. R.G. ELLIS

AR FAI y cyntaf fe fydd Mr. R.G. Ellis yn ymddeol yn swyddogol. Oherwydd rhyw amryfusedd yn y rheolau yr oedd yn rhaid iddo ddal ymlaen hyd Fai y cyntaf, er fod Mr. Meirion Wyn Jones wedi

ymgymeryd â gwaith Dirprwy Brifathro a Mr. Gomer Davies wedi dechrau fel Pennaeth Ffiseg. Gan fod Mr. Ellis wedi gwneud i mi addo ar fy llw i beidio 'gwneud ffys' a gan fod gennyf ormod o barch ato i anufuddhau, gair byr fydd hwn. Fe fu Mr. Ellis yn athro Ffiseg yma am chwe mlynedd ar hugain ac yn Ddirprwy-Brifathro am dair blynedd. Yr oedd yn athro gweithgar a brwdfrydig. Fel Dirprwy Brifathro yr oedd yn ddoeth yn ei gyngor i mi, ac yn ei ymwneud â'r athrawon ac yn gwbl deyrngar i'r ysgol. Y mae ein dyled iddo fel athrawon, disgyblion a rhieni yn fawr.

Fe wn na fydd yn hoffi i mi ysgrifennu hyd yn oed nodyn byr fel hyn. Fy esgus a fy nghyfiawndd fydd fod gennyf ddyletswydd i ddatgan yn gyhoeddus ein gwerthfawrogiad o'i wasanaeth clodwiw i'r ysgol a'n dymuniadau gorau iddo yn ei ymddeoliad.

W.E. Thomas
Prifathro



MYNYDDA

Diwedd y tymor diwethaf aeth amryw o aelodau Clwb Mynyddda'r ysgol i aros i'r Ganolfan yn Rhyd Ddu am ychydig ddyddiau. Aeth tri o athrawon yr ysgol gyda'r plant. Dr. Prys Morgan Jones, Mrs. R.M. Parry a Mrs. M.W. Jones. Aeth Mrs. R.M. Parry gyda hwynt hefyd i gynorthwyo gyda'r coginio.

NEWYDDION LLANBERIS

YR EGLWYS YNG NGHYMRU Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg yn Neuadd Eglwys St. Padarn nos Fercher, Ebrill 13eg. Penodwyd Mr. R.E. Williams, Arosfa yn Warden y Rheithor a Mr. John Morgan, Nant Peris yn Warden y Bobl.

CYMORTH CRISTNOGOL

YN YSTOD wythnos Cymorth Cristnogol 16-21 Mai bydd aelodau eglwys Llanberis (a Nant Peris) yn mynd o gwmpas i gasglu at Gymorth Cristnogol. Estynnir cyfle i bob aelwyd yn yr ardal i roi rhodd ariannol i gynorthwyo'r newynog yn ein byd. Mae 460 miliwn o bobl yn ein byd, heb ofal meddygol addas, a heb gael cyfle i gael addysg briodol. Ystyriwn o ddifri y gwahoddiad i rannu â'r anghenus "Lle bo bywyd, bydded gobaith." Y trefnydd yn Llanberis ar ran Y Cyngor Eglwys yw Miss Kathrine Gillespie, Bod Alwyn, Y Stryd Fawr.



DRAENOG MEWN PENBLETH

Wedi clwad fod Cyngor Sir Gwynedd yn bwriadu gwario bron i £22,000 am gae Bryn Moelyn, Llanrug sydd yn gae o ychydig dros acer ar gyfer maes chwarae i'r Ysgol Gynradd. 'Roedd adeiladydd wedi cael caniatâd i adeiladu tai yma. Rhyw 'ychydig o ffordd i lawr y lôn mae Pwll Moelyn - ac ma' 'na Bwyllgor arbennig yn hel pres fel slecs i wneud hwnnw yn gae chwarae hefyd! Nefi blw - faint o blant sy'n Llanrug 'dwch?

O.N. Maes chwarae i blant 'ta tai ydi'r pwysica meddach chi? Dwi'n siwr y bydd yna ddadla!

YSGOL DEINIOLEN

Llongyfarchiadau calonnog y fro un-waith eto i blant Ysgol Gwaun Gynfi. Bu'r Parti Can Actol a'r Parti Dawnsio Gwerin yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Bangor. Lwc owt Barril Gobeithiwn gael lluniau ohonynt yn ymarfer yn y rhifyn nesaf.

CYNGERDD CLASUROL

NOS IAU, Mawrth 31ain, cynhaliwyd cyngerdd yn yr ysgol a'r elw tuag at adfer Angorfa, hen gartref T. Rowland Hughes. Arweinwyd gan Mr. R. Gwyndaf Parry, athro cerdd yr ysgol, a chyfeiliwyd gan Annette Bryn Roberts, disgybl o'r pedwerydd dosbarth.

Cymerwyd rhan gan Mr. Brian Rowlands, Mrs. Ellen Ellis, Mr.

Edwin Evans a Mr. Evan Bryn Roberts, ynghyd â chôr y disgyblion ac athrawon yr ysgol. Rhoddwyd y diolchiadau ar y diwedd gan brif-ddisgybl yr ysgol, sef Michael John Williams.

Daeth nifer dda ynghyd a mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Casglwyd dros £100 tuag at Apêl Angorfa.



Côr Pedwar Llais



Côr Iau



Yr Unawdwyr: Evan Bryn Roberts, Ellen Ellis, Edwin Evans




TÎM AELWYD LLANBERIS

Ddaeth Cwpan Panyfedwen ddim yn ôl i Lanbêl eleni - ond bu mewn trwch blewyn. Colli ar giciadau cosb wnaeth yr hogia yn Aberystwyth. Peidiwch â phoeni - daethoch ag anrhydedd i Lanberis am yr ail flwyddyn yn olynol. Ma' 'na flwyddyn nesa' yn 'toes?

CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

NEPELL o Bompren Gwredog, Waunfawr mae maen a elwir Y Garreg Bechodau. Sut y cafodd y ffasiwn enw medda chitha? Cefais yr esboniad canlynol gan Mrs. Mary Awstin Jones, Penrhos.



Y Bwydau Pechodau

Llun: Peter Roberts, *Cambrian Popular Antiquities* (Llundain, 1815), t. 174.

Flynnyddoedd lawer yn ôl, pan fyddai rhywun o'r Waun farw, arferai ei deulu gyfrannu at wneud teisen fawr, gan ofalu rhoi'r defnyddiau gorau bosibl ynddi. Ar ôl ei chrasu, byddid yn ei rhoi ar frest yr ymadawedig a'i gadael yno i oeri. O wneud hyn, credent eu bod yn tynnu ei holl bechodau o'r corff ac yn eu trosglwyddo i'r deisen. Y cam nesaf oedd mynd â'r deisen at y Garreg Bechodau a'i gadael yno. Mae'r garreg ar ymyl coedwig drwchus. Trigai dyn gwyllt yn y goedwig ac arferai ddod o'i guddfan a bwyta'r deisen a adawyd iddo ar y Garreg Bechodau. Credai pobl yr ardal fod holl bechodau'r meirw yn cael eu trosglwyddo i'r dyn gwyllt fel hyn. Oherwydd hyn, gelwid ef y Bwydau Pechodau. Dyma pam y rhoid y defnyddiau gorau yn y deisen, er gwneud yn siwr ei fod yn ei bwyta hi a'i phechodau bob tamaid!

Er mor rhyfedd yw'r esboniad ar yr olwg gyntaf, 'roedd y Bwydau Pechodau yn berson digon cyffredin yng Nghymru a gwahanol rannau o'r byd ar un adeg. Cyn hyn, fodd bynnag, credid fod yr arferiad wedi marw er dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan geir sôn amdano yn sir Gaerfyrddin ac ar ororau Cymru.

Amrywiai'r ddefod o wlad i wlad a dengys hyn ei tharddiad. Ar ynysoedd yr Alban, rhaid oedd i'r bwydau fod yn ddieithryn — hyd yn oed deithiwr a ddigwyddai fynd heibio. 'Roedd hyn er atal unrhyw un a ddaliai ddig yn erbyn yr ymadawedig rhag cymryd ei bechodau a'u taflu i'r môr, lle gallent godi fel cythreuliaid i

boenydio enaid y truan. Dywedid hefyd na fedrai'r sawl a fwyta'i bechodau'r meirw â dig yn ei galon fyth eu taflu ymaith ac y byddai byw fel un wedi ei felltithio. Yn India anfonid y bwydau o'r wlad ac ni chaniateid iddo ddychwelyd byth.

Ceid cred wahanol mewn gwledydd eraill. Ym Mafaria arferid tyllino'r deisen a'i gosod ar y corff i godi cyn ei chrasu. Credid fod y toes yn tynnu holl rinweddau'r ymadawedig ato'i hun ac y gellid eu trosglwyddo i fwydau'r deisen. Ymysg rhai Melanesiaid, pobl Awstralia a rhai Indiaid o Dde America, bwyteid darnau bach o'r corff ei hun am yr un rheswm. Tybir mai datblygiad o'r arferiad canibalaidd hwn yw'r Bwydau Pechodau.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, BEM

DYMA gnoc ar y drws! Pwy oedd yno ond Mrs. Inigo Jones, Eilionwy, Pontrhyallt. Ac meddai: "Fuasech chi yn lecio gweld beth 'sgrifennodd eich tad yn fy Album i ym Mehefin 1920?"

"Buaswn yn falch iawn," medda finnu. Wel, mae'r hen air yn berffaith wir, Gorau Camp, Cadw! Y mae Mrs. Jones wedi cadw'r albwm am agos i drigain mlynedd. Oed fy nhad yn 1920 oedd 45. Dyma'r farddoniaeth o waith fy nhad allan o'r Album. Diolch yn fawr iawn i Mrs. Inigo Jones am ei gadw a'i ddangos.

MOLAWD I FIS MAI

A mi ar fryn, ym Mai, a'r fro — hudol

Yn baradwys tano;
Tybiais i'm fyned heibio — ysbryd teg
Ga i ddawar wiwdeg a'i wedd i wrido

Uwch y cwm nid oedd gwmwl
Na gwybr dawch nag obry dwl
Pob peth fel pe bai'n plethu
O eigion gwawl, ei gân gu.

Duwies, bywyd ysbïai
I lygaid mil o goed Mai
Yngan greddf wnai'r gangen grog,
Yn dawel a blodeuog.

Awel fryn dros bell dwyni
Hwyliai gais bugail i'w gi
Y rhesyn i'w hedyn hi
Rodd arogl barai ddyri.
Annywyl oedd, ca'i lawen wlad
Hoff harddwch, o'i chyffyrddiad.

Glan Rhyddallt

Mehefin 1920

IEUAN GWYLLT 1822-77



Y Parch. JOHN ROBERTS
(IEUAN GWYLLT)

GAN MLYNEDD yn ôl i'r mis hwn (Mai) bu farw Ieuan Gwyllt. Yn 'Y Fron', Llanfaglan y bu farw (ac nid yn Llanberis fel y dywed J.H.W. yn y "Caernarvon and Denbigh Herald") wedi cystudd byr, ar 14eg o Fai 1877 yn 54 oed; a chladdwyd ef ym mynwent Caeathro ar yr 20fed o Fai 1877. Ymhen dwy flynedd codwyd cofgolofn hardd iddo gan ei weddw. 'Roedd ei gynhebrwng yn un o'r rhai mwyaf poblog a welwyd yn y cylch. Disgrifir ef gan R.D.Gruffydd yn y 'Bywgraffiadur' yn syml fel — 'cerddor' Fel cerddor, yn sicr, y disgleiriodd ac yr enillodd ei blwy' yn llyfrau hanes ein cenedl yn arbennig trwy ei lyfr Tonau ond yr oedd agweddau eraill ar ei weithgarwch. 'Roedd yn llenor hefyd. Bu'n olygydd, ar wahanol gyfnodau, i 'Y Goleuad' (wythnosolyn y Methodistiaid Calfinaidd), 'Yr Amserau' yn Lerpwl (a unodd efo'r 'Faner' yn ddiweddarach) a'r 'Cerddor Cymraeg'. Ysgrifennai nid yn unig y Golygyddol ond hefyd erthyglau amrywiol eraill i'r cylchgronau hyn. 'Roedd yn arweinydd cymanfaoedd, yn feirniad cerdd, yn bregethwr, cyfansoddwr a bardd. Hyrwyddai ddarlenn a dirwest (llwyr ymwrthod).

Ond mae gennym ni yn ardaloedd 'Eco'r Wyddfa' hawl arbennig arno gan iddo fod yn weinidog ar Eglwys Capel Coch (M.C.), ei gweinidog cyntaf yn wir, ac ar Eglwys Gorffwysfa (M.C.) am gyfnod byr. Cardi ydoedd, a hanai o Benllwyn. O Bant Tywyll, Merthyr Tydfil y daeth i fyw i Lanberis, yn ŵr ifanc 43 oed ar 29ain o Awst 1865. Arhosodd yma hyd 1869 pan symudodd i'r Fron, Llanfaglan. Un o'r prif resymau dros symud oedd cynnydd, gyda sefydlu Gorffwysfa, yn y gwaith o ymweld, ac yntau heb gredu yn y gwaith hwnnw, ar wahân i ymweld ar achlysuron o angen gwirioneddol. Credir iddo gyfansoddi ei dôn fwyaf a'r enwocaf, 'Moab', yn Llanberis.

Creodd gynnwrf pan drefnodd gyngerdd i godi arian er hyrwyddo addysg yn y cylch, pan wahoddodd Eidalwr i ganu fflwt yn y cyngerdd a gynhelid yng Nghapel Coch! (Roedd yn ddyn cryf ac y mae cryn straeon amdano ef a'i gryfder, ond efallai y daw cyfle eto i sôn am y rheini!). Nid oedd yn hoffi sŵn plant yn yr oedfa. Gyrrai hwy allan os cadwent sŵn. 'Roedd yn gyson o leiaf oherwydd dywedir amdano ef ei hun ei fod yn blentyn swnllyd ym mhobman ond yn y capel! Ni chlywid na siw na miw ohono yno!

Nid yw Henaduriaeth Arfon wedi anghofio'r dathlu oherwydd gwahoddwyd Hugh Williams i siarad am ei gyfraniad yn ystod un o'i heisteddiadau yn ddiweddar ac y mae Cyfarfod Dosbarth (M.C.) Llanberis wedi trefnu cyfarfod arbennig ym mis Gorffennaf dan y pennawd, "Emynau a Thonau Ieuan Gwyllt" yn briodol iawn yng Nghapel Coch. (Y dyddiad i'w bennu eto). Bydd Capel Coch yn dathlu ei Ddaucanmlwyddiant ym mis Hydref eleni, yn ystod yr Ŵyl Ddiolchgarwch. Cloir y dathlu gyda Chymanfa Ganu ar nos Sul, ac fe roddir sylw i Ieuan Gwyllt yn y Gymanfa honno.

ECO'R WYDDFA TRWY'R POST

Cysylltwch â
Selwyn Williams,
(Trefnydd Gwerthiant)
Cartref, Stryd yr Orsaf,
Llanrug.
Caernarfon 3577.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ
Rhydd-
Feddiant
Llanberis
Perchennog
Aneuryn
Jones
FFÔN : LLANBERIS 277

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



Cadw Gwenyn

TRIGOLION
Y CWCH

gan
ISLWYN WILLIAMS,
Godre'r Coed, Brynrefail.

Ym misoedd Mehefin a Gorffennaf, fe gynnwys y cwch gwenyn boblogaeth aruthrol o uchel. Amcangyfrifir bod rhwng 50,000 a 70,000 o wenyn yn trigo mewn un cwch yn wastadol. O'r holl griw, 'does ond un Frenhines, ychydig gannoedd o wenyn segur a'r gweddill yn weithwyr.

Y FRENHINES

Mae llawer iawn o ddirgelwch o gylch y Frenhines, a bydd llawer o ddiethriaid i'r grefft o gadw gwenyn yn dra awyddus i'w gweld. Gwaith anodd yw hyn, oherwydd fe'i cuddir hi gan amlaf gan glwstwr o wenyn eraill. Wedi ei gweld unwaith ni ellir yn hawdd ei hanghofio. Mae'n bur wahanol i'r gweddill gan ei bod yn llawer mwy. Mae iddi gorff main a thenau, coesau mawr ac esgyll gweddol fyr. 'Does yna unpeth yn frenhinol yn perthyn iddi — ond ei henw. Nid hi ar unrhyw gyfrif sy'n rheoli na threfnu gwaith y cwch. Hwyrach y buasai'n fwy priodol ei galw'n gaethferch, oblegid rheolir ei gweithgareddau gan y gweithwyr. Ei hunig swyddogaeth yw dodwy wyau.

Cyn yr ail ganrif ar bymtheg galwyd y gwenyn mwyaf oedd yn y cwch yn Frenin, er fod Aristotle yr athronydd wedi awgrymu cyn hynny mai benyw oedd. Yn yr ail ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, aed ati i adeiladu cwch o wydr fel y gellid gweld beth oedd yn mynd ymlaen. Er syndod i bawb, darganfuwyd fod y Brenin yn mynd o amgylch a dodwy wyau! Newidiwyd yr enw'n bur sydyn a'i galw'n Frenhines, a dyna ei henw hyd heddiw.

Y Frenhines yw'r unig fenyw berffaith sydd yn y cwch. Genir hi yn wahanol i'r gweddill o gell arbennig. Mae'r gell tua maint a ffurf mesen ac yn ddiethriad mae'n hongian ar ochr un o fframiau'r cwch. Wedi adeiladu'r gell o gŵyr a phaill, mae'r gweithwyr yn gosod ŵy ynddi — ŵy a ddodwyd mewn cell gweithiwr gan amlaf. Yn syth ar ôl gosod yr ŵy i mewn, brysia'r gweithwyr i ddodi defnydd arbennig a elwir yn "jeli brenhinol" arno. Darganfuwyd fod gan y jeli yma nodweddion rhyfeddol sy'n nerthol a meddyginiaethol.

Mae llawer o arbrofion wedi eu gwneud o dro i dro i weld a ellid defnyddio'r bwyd rhyfedd hwn er budd dynolryw. Ni phrofwyd dim hyd yma, ond gellir rhyfeddu wrth feddwl fod yn bosibl iddo newid ŵy a fwrriadwyd i ddatblygu'n weithiwr, i fod yn Frenhines a ddaw yn y man yn fam i tua tair miliwn o wenyn eraill!

Mae'r ŵy sydd yn nofio yng nghanol y 'jeli brenhinol' yn datblygu'n sydyn iawn. Fe gynydda tua 1,500 gwaith mewn maint o fewn tri niwrnod. Pe rhoddid y jeli yma i faban dynol a bwysai saith bwys ar ei enedigaeth, buasai'n pwyso bron i bum tunnell yn dri diwrnod oed. Byddai'n tyfu i dros ddeng troedfedd o daldra ac yn byw yn

agos i dri chan mlynedd!

Pan mae'r Frenhines ar ei gorau, gall ddodwy tua 1,800 o wyau y dydd, ond wrth fynd yn hŷn mae'n arafu. Felly mae'n arferiad gan y gwenynwyr ei newid bob tair blynedd. Os na wna'r gwenynwr hyn, bydd i'r gweithwyr yn y cwch benderfynu ei newid trwy broses a elwir yn ddisodli. Pan enir Brenhines newydd, fe ddigwydd brwydr, bydd y ddwy Frenhines yn ymladd hyd yr eithaf — rhaid i un o'r ddwy farw — ac yn ddiethriad y Frenhines ifanc fydd yn fuddugol. Nid yw'r sôn am y wladwriaeth les wedi treiddio i'r cwch hyd yma. Maent mor ddiidrugaredd a digydymdeimlad tuag at y claf a'r anafus o'u plith ag yw peiriant wedi iddo ladd dyn.

(I Barhau)


YM MYD MODURO



Gyda phris petrol yn dal i godi mor arswydus, mae'n ddoeth i fodurwyr gadw golwg wyladwrus ar faint a dreulir.

Gellir cael arweiniad da i hyn trwy edrych tu fewn i'r disbyddwr (exhaust) ar ôl siwrnai. Dylai'r tu fewn fod o liw llwyd, tebyg i lwch llechen, ond os oes arlliw o ddŵch arno, golyga hyn fod gormod o betrol yn cael ei losgi. Fel rheol gellir cywiro hyn trwy addasiad syml a rhad.

Isod: Hywel E. Jones



MEDDWLY BUASECH YN LECIO GWYBOD

Cafodd ei fedyddio yn ECO'R WYDDFA, ond awgrymwyd sawl enw i'r papur cyn iddo gael ei sefydlu. Dyma'r awgrymiadau: 'Yr Eryr'; 'Swpar Chwarael'; 'Papur Bro Deiniol'; 'Llais Seiont'; 'Yr Utgorn'; 'Llechfaen'; 'Cyfri Mawr' a 'Peris Lais'.

Pa un fydddech chi wedi ei ddewis, ysgwn i? Neu, a oedd gynnoch chi well awgrym?

Darllenwr Triw o'r U.D.A.

Llun Mr. Hywel E. Jones, un o ddarllenwyr triw yr Eco sydd yn byw ar hyn o bryd yn Utica UDA. Ym Manc Utica y bu Mr. Jones yn gweithio ac er iddo dreulio llawer blwyddyn yno, mae ei Gymraeg fel grisial o hyd. Clywsom nad oedd wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar ac iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Dymunwn adferiad buan iawn iddo — gan obeithio ei weld o a'i wraig Betty yn ôl yn Llânrug yn fuan eto.



Cartref Hywel Jones, Yng Nghwm-y-glo gyda'i frodyr a'i chwiorydd yn y llun. Sylwch ar y ffenestr fawr — hen Co-operative oedd y tŷ. Richard Ifan Jones, tad Hywel oedd yn cadw'r lle.

CIPAR Y F

gan John
(John David Evans, M)

AR gychwyn gyrfa yr Eco dros flwyddyn linellau i gyfarch a dymuno ei lwyddiant.

Bellach mae y fro wedi sylweddoli gwerth phawb yn blasu ei gynnwys gonest ac adeiladu.

Diolch i'r arloeswyr a holl Swyddogion yr Eco'r Wyddfa.

Fel genweiriwr, eisteddfodwr a rhigymwr mae tri pheth wedi fy swyno o fis i fis, yn gyntaf darlun o'r diweddar hen frawd annwyl Bob Jos, Brynrefail a'i gwch ar Lyn Padarn. Treuliais oriau yn ei gwmni ar lan yr afon ac yn ei gartref. Yn ddiarnheulol yr oedd yn un o enweiriwyr mwyaf praff y gymdogaeth.

Gallai lunio plu pysgota i ffitio yr hinsawdd mewn ffurf ddeniadol, boed frithyll, eog neu dorgoch; ac os y byddai yn cawio bachau pryf genwair arferai eu galw yn fachau Johnnie'r Iard am eu bod ychydig yn unochrog yn y tagall, fel ag y dymunwn i iddynt fod.

Gan mai Llyn Padarn oedd ei hoff fan, diolch am weld ei lun yn ei gwch, daw atgofion melys amdano. Cyflwynaf yr ychydig linellau hyn am hen frawd annwyl iawn yn ei gwch ar fin y llyn.

Mae i'r môr ei iaith a'i ramant,
A'i ddi-ddarfod ewyn gwyn;
Ond i mi, mae swyn dihafal
Yn nhawelwch min y llyn.

Llawer orig felys dreuliais,
Mewn tangnefedd wrth fy hun;
Syllu ar yr elyrch gwynion
Mor osgeiddig, hardd eu llun.

Bob Tŷ Coch a'i gwch henffasiwn,
Yn ymrwyfo mewn mwynhad;
Gyda'i enwair hir a'i offer,
Hen bysgotwr gorau'r wlad.

Rhowch i'r dringwr gopa'r mynydd,
Ac i'r morwr beth a fyn;
Rhowch i minnau orig dawel
Yn nhawelwch min y llyn.

Yn ail fel eisteddfodwr ac adroddwr carwn ddiolch am gyfraniad Mr. Emyr Jones gynt o Waunfawr, sydd yn awr yn athro yn Abergele. Diolch iddo am ei benillion gyfansoddwyd i'r Mis Pump, pan oedd yn gweithio yn y chwarel pan y bu iddo ennill Cadair Eisteddfod y Chwarel am ei gerdd. Nid oedd yn gadair o ran ei ffurf a'i llun, ond i'r chwarelwr 'roedd yn gadair ar gyfer ei orchwyl feunyddiol i eistedd i hollti llechi, fel noddod i doi aneddau, sef Plocyn Tin i roi enw y chwarel arno. Gwnaed yr un dan sylw gan y diweddar Richard Griffith, sef Dic Pencraig, Dinorwig.

Y Beirniaid Llên oedd y Parchedigion Llew Bowyer, Deiniolen a Bryn Williams, Capel Coch gynt. A mawr yr hwyl yng Nghaban y Mills yr awr ginio honno, a chystadlu brwd mewn canu, partion, pedwarawd y band ac adrodd.

Rhannwyd gwobr yr adrodd rhwng Tommy Owen, Tandinas gynt a minnau. Mae y darn adrodd hwnnw ar fy nghof hyd y dydd heddiw, sef:

"Oraiau olaf yr Arglwydd Iesu" — Englynion o waith Taliesin o Eifion.

WYDDYN

e'r Iard
es y Dref, Deiniolen)

n ôl cefais y fraint o gyfansoddi ychydig o

y misolyn hwn yn ei holl weithgareddau, a
ol ymhob cylch o fywyd.
Eco am eu hymroddiad diflino i lwyddiant

Ond heb fod yn rhy bersonol
ymhen llawer blwyddyn ar ôl
hynny bûm yn ffodus i ennill ar
ddarn o farddoniaeth yn Eistedd-
fod y Glasgoed. Nis gwyddwn
pwy oedd y beirniad. Wel! pwy
ddyliciech chi, neb llai na Mr. T.
Owen, Tandinas, erbyn hyn
yntau yn athro llwyddiannus, ac i
goroni'r cyfan cefais y wobr yn
Eisteddfod y Felinheli y flwyddyn
ddiwethaf am Atgofion ar Dâp a
Pharodi. Nid oeddwn yn
bresennol yn yr Eisteddfod
honno, ond pwy oedd y beirniad?
Wel! neb llai na Emyr Jones,
Abergele. Er nas gwelais ef byth ar
ôl Eisteddfod y Chwarel a'r
Plocyn Tin, mwy nag y gwelodd
yntau finnau, ac felly y carwn
ddiolch iddo am ei gân yn Eco'r
Wyddfa.

Ac i orffen y triawd, diolch i Wil
John, Ceunant sef Mr. Jones, Tal-
y-mignedd, am ei benillion i'r
chwarel a'r chwarelwr. Cofiaf fod
gydag ef dros ddeugain mlynedd
yn ôl yn Eisteddfod y Felinheli a
hen gyfaill annwyl arall i ni o Lan-
beris, sef Ellis. Wil yn canu "O na
byddai'n haf o hyd" ac Ellis a
minnau yn adrodd darn o waith y
Prifardd Crwys sef "Ellis Edwards
o'r Bala."

Cofiaf William John yn dweud,
"Mi ganaf heno nes byddant yn fy
nghlywed ym Mrynsiencyn", ac
felly yn union y bu hi, fe enillodd
y wobr gyntaf. 'Roedd honno yn
noson fythgofiadwy.

Diolch am eu cyfraniad i'r Eco,
hawdd deall fod hiwmor a ffordd
wreiddiol y Chwarelwyr yn aros o
hyd yn eu cyfraniad i bapur eu
bro a'i ramant.

Cyflwynaf ychydig linellau eto
i'r brawd annwyl William John,
Tal-y-mignedd.

Pan ddelo brig yr hwyrnos,
A'r machlud uwch y môr;
A thewi yn y llwyni oll,
Yr holl asgellog gôr;
Bydd William John, a'i gi a'i ffon,
Yn gwylio'r praid ar gwr y Fron.

Ac i'r ymwelydd ar ei hynt,
Daw atsain pâr ei gân;
Tenoraidd lais y bugail mwyn,
Tra'n cyrchu'r defaid mân;
Yn siwr y daw atgofion lu,
Am hen orchestion dyddiau fu.

Wrth dertynu carwn ddymuno
yr un llwyddiant eto i'r dyfodol i
bapur ein bro.

Hyn gyda diolch,
John David Evans.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

SAGA'R TORGOCH

gan David J. Roberts,
Llanberis

GWELAIS gyfraniad yn un
rhifyn o'r Eco yn dweud fod
y Torgoch yn diflannu am
chwe mis cyntaf o'r
flwyddyn. Nid yw hyn yn
wir.

Y rheswm am hyn yw eu bod
mewn cyflwr gwael ar ôl claddu,
ac nid ydynt yn werth eu dal
(cymer ambell dorgoch bluen ar
liw nos ddiwedd Mawrth ac Ebrill,
pan fydd y Maid Nos yn dechrau,
ar ôl i'r wennol gyrraedd). Ni
fyddai neb yn pysgota torgoch tan
y Sulgwyn ers talwm, ac os oedd-
ynt mewn cyflwr da, byddent yn
dal i'w pysgota hyd ddiwedd y
tymor, a dyna pahan mae cyn
lleied i'w gweld yn nechrau'r
tymor.

I ddod yn ôl at Dr. Rogers -
dywed fod y brithyll yn rhwystro
torgoch fynd i'r afon i gladdu. Yn
y lle cyntaf, welais i erioed frith-
yll yn claddu yn y Rhyd, dim ond
ambell frithyll mor neu eog.
'Roedd y rhyd yn lle digon perygl-
us i'r ddau yn yr hen amser.
'Roedd gormod o arbenigwyr
'efo'r Tryfer, Giaff, Groglath a'r
Snatch iddynt fod yno yn hir.

Mae'r brithyll yn hwylio i
gladdu yn gynnar. Y rhai cyntaf
yn ymwithio i fyny'r afonydd yn
niwedd Medi os y caent ychydig o
ddŵr. Mae rhai yn mynd i fyny'r
Afon Goch, eraill i fyny'r Afon
Station, heibio i Dôl Afon, at gyf-
eiriad Tyddyn Eilian. Afon dda
yw hon i'r brithyll gladdu - gan ei
bod yn fas ac yn rhedeg yn araf.
Ni hoffai ddŵr mawr, na gwyllt i
gladdu. Dyna un rheswm nad
yw'n claddu yn y Rhyd.

Byddai amryw o frithyll Llyn
Padarn yn mynd trwy Rhyd y
Bala, ac yn mynd â rhai y Rhyd
gyda nhw, trwy'r bont i Lyn Peris
yna troi i'r chwith ac i fyny Afon
Gwenffrwd, cyn belled â phont
haearn Trên yr Wyddfa, cario
ymlaen i'r chwith, ac i fyny Afon
Parc, (llawer gwaith gwelais lond
yr afon bach o frithyll o bob
maint). Mae'r afon yma hefyd yn
ffafriol i frithyll gladdu. Felly,
gwelwch fod y brithyll yn brysyr
iawn pan fydd y torgoch yn y
Rhyd.

I Barhau



Llyn o Breimar, un o'r pysgot-
wyr Torgoch gorau a welodd yr
ardal erioed yn bwydo'r alarch. Y
ddau wedi treulio amser maith ar
Llyn Padarn.

Gydag ef yn eistedd tu cefn mae
Mr. Emlyn Jones (yn awr o Borth-
madog) perchennog y llun.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Croeso i'r Llannerch. Tydi amser yn mynd heibio'n gyflym
Dros flwyddyn wedi mynd er pan alwyd Wmffri adref. Peta
o hefo ni y dyddiau hyn, mi fyddai wrthi yn dawel a diwyd yn
trefnu ar gyfer Etholiadau'r Cyngor Sir, reit siwr.

'Rwy'n sicr hefyd y byddai'n ymfalchio o weld drws Canol
fan Tanybont ar agor, ac yn enwedig o weld llwyddiant y dar
lithoedd difyr ac addysgiadol a gafwyd yno yn ystod y gaeaf

Does 'na'r un gymdeithas yng
Nghymru a all ymfalchio iddi
ddenu cymaint o ddarlithwyr
enwog o fewn ychydig wyth-
nosau. Meddyliwch am rai o'r
enwau adnabyddus y cawsom y
faint a'r pleser o wrando ar-
nynt ar nosweithiau Llun yn y
Ganolfan:-

Geraint Lloyd Owen, Wil Sam
John Eilian, Derec Llwyd Mor-
gan, Bedwyr Lewis Jones, John
Roberts Williams, I.B.Griffith,
Eigra Lewis Roberts, Maldwyn
Lewis, Dafydd Wigley, Carl
Clowes, Gunston Jones, Robin
Williams, John Gwilym Jones.
'Rwy'n siwr o fod wedi anghofio
ambell un - maddeuer i mi.
Mae'n hawdd gadael allan wrth
ddechrau enwi, yn tydi?

Beth bynnag, yr hyn sy'n
bwysig inni gael darlithoedd
difyr ac addysgiadol, a phob un
o'r darlithwyr yn sylweddoli
fod 'na wahaniaeth rhwng dar-
lithio mewn festri capel a dar-
lithio mewn canolfan fel Tan-
ybont.

Byddai, mi fyddai Wmffra
(Wmffri fyddwn i'n ei gyfarch,
gyda llaw) yn falch o lwydd-
iant darlithoedd nos Lun
Clwb Tanybont.

Fe gafwyd noson arbennig
yno yn ddiweddar, sef 'Noson
Gofio Wmffra' a bu rhai o
feirdd y fro yn llunio cerddi ac
englynion i'w goffau.

Dyma gynnig dosbarth cyng-
aneddu y Ganolfan, sy'n cyf-
arfod yn rheolaidd bob nos lau
- cyfle gwych i chwi feistrol'r
Cynganeddion.

WMFFRA

Un o arwyr Eryri, - a'i herwau

A garodd o ddifri,

Er yr archoll o'i golli

Deil yn her i'n cenedl ni.

(Dosbarth Cynganeddu

Canolfan Tanybont)

Meirion Hughes sy'n gofalu am
y. Dosbarth, a dyma englynion
Meirion i Wmffra

CYN ETHOLIAD 1966

Yn fuan iawn cofiwn ni - ein dyled

I Walia eleni,

Un diymffrost yw Wmffri,

Llais hwn sydd er ei lles hi.

CHWEFROR 26, 1977

Anochel yw yn achos - teg Walia

Datgelu arwyddbost,

Wmffra, y gŵr diymffrost

Yn rhwym i'r gwaith er mawr gost.

Rhoes â'i wên hir wasanaeth - yn

Arfon

Lle mae dirfawr alaeth,

Hollir o hyd i ble'r aeth

Unwaith eilun etholaeth.

Gadfridog da ei frodir - a giliodd

Gwywodd calon gywir,

Iddo o'r gad y rhoddir

Awr hoe wedi brwydro hir.

Diwair glod i'r gweledydd - a ganer

Gan ei genedl beunydd,

Mawrheir ef mewn Cymru Rydd;

Nid marw yw ei lladmerydd.

Meirion Hughes.

"O na chawsai Wmffra weled,
y Ganolfan newydd hon" -
dyna neges "Hiraeth Gân" Twm
Bethel.

HIRAETH GÂN

(I Wmffra Roberts, un o sylfaenwyr
Canolfan Tanybont)

Colli wnaethom rai enwogion
O fewn corff y flwyddyn hon,
Yn eu plith 'roedd Wmffra Roberts,
Croesodd yntau dros y don.
Gwerthfawrogwn ei wasanaeth
Fel gwladgarwr yn y dref,
Pleidiwr selog i lenyddiaeth
Ac i Addysg ydoedd ef.

Bu yn ffyddlon a llafurus,
Do i'r Blaidd am amser hir.
A gwasgarodd drwy'r gymdogaeth
Beraroglau'r Gymru Rydd;
Chwith yw dyfod i'r Ganolfan,
Ni chawn yma weld ei wedd,
Ar ôl gweithio drosti'n galed,
Heddiw'n huno yn ei fedd.

Rhaid ei gadw'n awr i huno
Yn y beddrod tywyll, oer,
Ni chawn eto ei gymdeithas
O dan olau'r haul na'r lloer.
Y dywarchen werddlas yno
Bwysa'n ysgafn ar ei fron,
O, na chawsai Wmffra weled
Y Ganolfan newydd hon.

Twm Bethel.

Y Prifardd Gerallt Lloyd Owen
biau'r gair olaf - dyma englyn
sy'n crynhoi'r cyfan - dyma
farddoniaeth.

Gwyliodd â'i drem yn gwaelu, - a
gwyliodd

Â'i galon yn gwaedu,
Nes iddo weld drwy'r nos ddu
Gip ar wawr fawr yfory.

(Gerallt Lloyd Owen)

Hwyl Wmffri, a heddwch i'r
llwch a wasgarwyd ar lethrau
Dyffryn Nantlle.

Hwyl i chwithau am y tro,
Selwyn.

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

DEINIOLLEN

CYFARFOD SEFYDLU

Nos Wener, Ebrill 22ain, cynhaliwyd cyfarfod sefydlu a gosod y Parch. Geraint Edwards, Ficer Eglwysy Pen- isarwaun a Llanddeiniolen yn Ficer Plwyf Llanddeiniolen. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Archesgob Cymru, Y Parchedicaif Gwilym O. Williams, Archddiacon Bangor, Yr Hybarch H. Arfon Evans, a Deon Gwlad Deoniaeth Arfon, Canon Alun Jones, Rheithor Llanberis. 'Roedd amryw o'r Gweinidogion a chynrychiolwyr o'r Eglwysy lleol yn bresennol yn yr oedfa.

Estynnwn groeso cynnes i'r Ficer newydd i'n plith gan eidduno llwyddiant amlwg iddo yn ei ofalaeth newydd

SEFYDLIAD Y MERCHED

Mawrth 28ain, cyfarfu'r Sefydliad o dan lywyddiaeth Mrs. M.A.Thomas. Rhoddodd hi groeso arbennig i Mr. Cymric Hughes, Penisarwaun sydd wrth gwrs wedi ei eni a'i fagu yn Neiniolen. Roedd ei wraig ac yntau wedi bod yn gweithio yn Awstralia ac ar ôl ennill tipyn o arian daeth y ddau yn ôl ar draws gwlad o Asia i Brydain. Buont yn teithio mewn trenau a bysiau lleol a cherdded llawer. Ar wahân i ddangos lluniau eithriadol o hardd o'r tmlau a'r duwiau a'r palasau, eglurodd Cymric hefyd y tloidi a'r anafteision o fyw mewn gwlad lle'r oedd diffyg glaw yn rhwystro pob math o garthffosiaeth, hyd yn oed mewn treffi pur fawr. Anodd fydd anghofio'r harddwch a ddangosodd a'r gwirioneddau a esboniodd i ni. Diolchodd Miss Betty Williams a Mrs. Thomas, Vaynol Terrace iddo. Rhoddwyd y te gan Miss Kathleen Jones, Mrs. Sally Lewis, Mrs. Eirlys Williams a Mrs. M.A.Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs. Katie Jones.

Ebrill 1af aeth parti'r Sefydliad i gadw cyngerdd i Blas Pen Gwaith. Cafwyd orig ddifyr iawn a llawer o ddiolch gan drigolion Pen Gwaith, a'r gair oedd "Brysiwch yma eto - rydych yn llawer gwell na'r hen delefisiwn 'na'".

Mai 2ail, Mrs. Hughes, Porth y Gogledd, fydd yn rhoi sgwrs ar 'Fwydlen' ac edrychir ymlaen am ei chlywed.

CLWB IEUENCTID

Llongyfarchiadau i bump o enethod y clwb a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar trwy ennill tarian bob un ar ôl chwarae mewn gemau pêl-droed pump-bob-ochr. Ar ôl gornest galed o chwarae a churo timau Talysarn, Caernarfon a Bontnewydd, fe chwaraewyd y rownd derfynol yn erbyn Porthmadog, a thîm y pentref a orfu, 3 - 2. Diolch i Carys Williams, Marion Williams, Kathy Williams, Glenda Parry a Carolyn Davies am weithio mor galed i ddod â'r anrhydedd yma i'r clwb.

Yn anffodus y tro hwn colli oedd hanes y bechgyn mewn cystadleuaeth gyffelyb, ond gwell lwc y tro nesaf i'w tîm hwy, oedd yn cynnwys Kelvin Lewis, Arwel Williams, Eifion Jones, Malcolm Davies a David Evans.

CYDNABOD

Derbyniodd Mr. Harry Davies, Penybont, lythyr cynnes oddi wrth Reolwyr Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt, Croesoswallt, yn ei longyfarch am gasglu'r cyfanswm o £82.50 tuag at hybu gwaith ymchwil i'r crydcymalau a gwella'r cyfleusterau yn yr ysbyty. Da iawn, Harry, ategwn y diolch!

PRIODAS

Dydd Sadwrn, Ebrill 9fed yng Nghapel Libanus, Clwt-y-Bont, gyda'r gweinidog y Parch Ifor Williams yn gwasanaethu, priodwyd Edwina, merch Mr. a Mrs. Robert Williams, 4 Tai Caradog, a James, mab hynaf Mr. a Mrs. Peter Clarke, Cae Esgob, Llanberis. Y mor- ynion priodas oedd Mrs Janice Lewis, Bethesda, ffrind y briodferch, a Miss Julie Clarke, chwaer y priodfab. Y gwas priodas oedd Mr. Alan Keith Williams, Llangefni, ffrind y priodfab, a'r

organyddes oedd Miss Nerys Williams, Llanberis, gyda Gareth Wynne Williams a Steven Clarke yn ystlyswyr.

Bydd y pâr ifanc sy'n athrawon yng Nghlwyd yn ymgartrefu ym mhentref Henllan, ger Dinbych.

EGLWYS CEFNYWAUN

Cynhaliwyd Gŵyl Bregethu flynyddol Eglwys Cefnywaun nos Sadwrn a Sul y Pasg, pryd y cafwyd cynulladau cryno i wrando ar y Parch. J.Price Wynne, Bronwydd, (Cyn-weinidog yr Eglwys) a'r Parch. Eryl Lloyd Davies, Ebnaser, yn pregethu.

Y SEINDORF

Prynhawn Sadwrn, Ebrill 16 aeth y Seindorf i gyfarfod ac i gyfarch y person o Faesgeirchen a fu ar daith gerdded o Gaerdydd i Fangor i godi arian tuag at gynnal Radio C & A.

Ar gyfer cystadleuaeth Eisteddfod Wrecsam penderfynwyd cael Mr. John Harrison, B.B.C.M., Halifax yn hyfforddwr proffesiynol.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Seindorf am saith o'r gloch nos Fercher, 4ydd o Fai yng ngwt y band. Croeso cynnes i bawb.

MERCHED Y WAWR

Yn ein cyfarfod nos Lun, Ebrill 18, o dan lywyddiaeth y Llywydd, Miss P. Roberts, mwynhawyd noson arbennig o ddiddorol a goleuedig gyda Miss Einir Wyn Owen, Rhiwlas, y delynores adnabyddus, yn rhoi sgwrs a datganiad ar y delyn 'Gothig' a chanu detholion o ganeuon gwerin a phenillion cerdd dant.

Diolchwyd yn gynnes i Miss Owen gan Mrs. Mair Morris, Rhydfadog, a Mrs. N. Jones, 10 Lle Caradog, ac ar ran aelodau Clwb yr Henoed gan Mrs. Lewis, Pentre Helen. Enillwyd y raffl, - plac llechen hardd a roddwyd gan Mrs. Gwladys Evans - gan Mrs. Menai Jones, Llanrug.

Cynrychiolir y gangen gan Mrs. Morris a Miss Nansi Owen, Rhydfadog yng Nghyngor y Gwanwyn a gynhelir yn Aberystwyth Mai 7fed.

NOSON DDIFYR arall oedd ymweliad y gangen â Merched y Wawr, Llanddona, nos Fawrth, Ebrill 19. Cyflwynwyd rhaglen ganddynt o ganu, adrodd a dwy sgets, a chafwyd cymradwyaeth a chroeso cynnes yn Llanddona. Ar ôl mwynhau paned o de a lluniaeth danteithiol, talwyd diolch iddynt gan Mrs. H. Sutherland (Is-Lywydd) a Mrs. Dilys Hughes. Y cyfeillydd oedd Mrs. B. May Williams, Rhydfadog, a hi a Mrs. Gwladys Evans fu'n gyfrifol am y rhaglen.

Nos Lun, Mai 16, fe ddaw aelodau o Gangen Penrhosgarnedd i gyflwyno drama gomedi i ni. Bydd Bwrdd Gwerthu (Bring & Buy) yno hefyd, a diolchir am roddion ar y bwrdd.

BROWNIES

Ar Fawrth 30ain, cynhaliwyd profion Cymorth Cyntaf a Chrefft yn y Gangen Enillwyd bathodyn Cymorth Cyntaf gan Denise Arkless, Paula Hughes, Bethan Jones, Donna Jones, Helen Jones, Rhian Jones, Anwen Thorman Jones, Evette Munford, Eleri Owen, Susan Owen a Gwenlli Roberts. Archwiliwyd y gwaith gan Mrs. Jennie Jones, Maes Gwynfa a Mr. Griffith T. Jones, Pentre Helen.

Dyfarnwyd bathodyn Crefft i'r rhai canlynol gan Mrs. M.A.Thomas, Maes Gwylfa: Elaine Evans, Bethan Jones, Donna Jones, Helen Jones, ac Evette Munford.

YMDDEOLIAD

Dymuniadau gorau i'r Rhingyll Griffith Eilir Williams, mab Mr. a Mrs. R.T. Williams, 8 Ffordd Deiniol, ar ei ymddeoliad o Heddlu Gogledd Cymru. Bu Eilir yn gwasanaethu mewn amryw ardaloedd yng Ngwynedd yn ystod ei wyth mlynedd ar hugain efo'r Heddlu, a bellach bydd ef a'i deulu yn ymgartrefu yn Neganwy.

ANRHYDEDD AWYRENWR

Daeth y glaw bore lau, Ebrill 21ain i chwalu'r bwriad o gludo Mr. W.M. Hughes mewn hofrennydd yr Awyrlu o'i gartref yn Rhiwen i orsaf yr Awyrlu yn Y Fali, Ynys Môn. Fel un o'r aelodau hynaf sy'n aros yng Ngwynedd o'r 'Royal Flying Corps', roedd Mr. Hughes, sy'n 88 mlwydd oed, wedi ei wahodd i dreulio diwrnod bythgofiadwy fel gwestai Prif Swyddog yr orsaf. Serch hynny, ni rwystrodd y tywydd anffafriol Mr. Hughes rhag prysuro i'w daith i'r Fali yn ei gerbyd ei hun, a chyrrhaeddodd yr orsaf mewn llawn bryd i fwynhau croeso tywysogaidd yr Awyrlu. Ar ei ddychweliad adref dywedodd Mr. Hughes ei fod wedi rhyfeddu at safon uchel yr awyrennau cyfoes o'u cymharu â'r rhai bregus y cafodd y profiad o'u hadfan yn y Rhyfel Mawr 1914/18.

APÊL ANGORFA

£130: Cwmni Clwb Adloniant Mowlem trwy Mr. P.B. Jones; £100: Arfon B.C.; £10: Cyngor Cymdeithas Pentir; £5: Islwyn Jones; Iolo Huws-Roberts, Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon; L.W. Griffith, 4 Park View, Birkhamster, HP4 3EY; Gertrude Jones, Hafod, Rupert St., Wolverhampton; Mr. W.G. Morris, Tŷ Oer, Clwt-y-bont, Deiniolen; Mrs. D. Jones, Chartnell, The Stage, Stroud, Glos.; Mr. G.P. King 43 Erwlas, Bethesda; Mrs. Q.F. Richards, Cemlyn, Heol Madog, Porthmadog; Dafydd Guto Owen, Noddfa, Talsarnau; Miss J. Thomas, Coedlys, Rhuddlan, Clwyd; Mr. a Mrs. K.H. Jones, 19 Maes Padarn Llanberis; Mr. a Mrs. Arwel Jones, Gwên y Wawr, Glangfynnon, Llanrug; Mr. I.W. Humphreys 34 Y Wern, Llanfairpwll; Mr. Dafydd Gwylon, Amgueddfa Cymru, Caerdydd £2.10: Mr. Robert Williams, Bryn Bedw, Rhosbodrual, Caernarfon; £2:



DYWEDDIAD

Cyhoeddir dyweddïad leuan Wyn, mab ieuengaf Mr. a Mrs. H. Davies, Penybont, a Glenys, merch hynaf Mr. a Mrs. W. Michael, 44 New Zealand Road, Duffield, Derby. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Mrs. M.L. Griffith, Minffordd, Bryn y Maen, Bae Colwyn; J.W. Ellis, Nant Peris; Mr. a Mrs. John Owen, Bron y Graig; Mr. Dafydd Orwig, Jones, Cilcafn, Coetmor, Bethesda; Mr. J. Parry, Hyfrydle, Lôn Parc, Caernarfon; Mr. a Mrs. W. Ellis Owen, Bryn y Maen, Llanrug; Mr. a Mrs. R. Skillicorn, Tan y Weirglodd, Deiniolen; Mr. a Mrs. O.R. Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig; Mrs. M.E. Hughes, 7, Hill St., Gerlan, Bethesda; Alice M. Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig; Enid Roberts, 3 Glanllyn, Bethel; J. Alwyn Parry, Castle, Llandysul; Mr. a Mrs. E.J. Owen Eryri, 57 Salford Rd., Southport; £1: Gwynfor Williams; Mrs. Morris, 2 Penrhos, Bethel; Mr. a Mrs. Japheth, Elidir, Caernarfon; Mrs. A.M. Jones, 7 Glangrafon Bungalow, Caernarfon; Mrs. Vera Hughes, Snowdon Valley, Llanberis; Mr. a Mrs. W. Roberts, 15 Maes Padarn, Llanberis; M.E. Hughes, Craig y Don, Cwm-y-glo; Mr. E. Davies, Gwynfa, Dyffryn Ardudwy; Edith Williams, 4 Beulah Sq. Caernarfon; Mr. I. Roberts, 38 Stryd Newton, Llanberis; L.V. Williams, 3 M Post Mess, HMS Atar BFPO Ships, Llundain; Mr. a Mrs. Harri Gwynn, Tyddyn Rhyddallt Llanrug; 50c: Mrs. Myfanwy Jones, Llys Eryri, Llanberis.

TAN-Y-COED

SIOP PANT Y COED

Y mae Siop Pant-y-Coed â chysylltiadau hanesyddol diddorol iddi. Yn yr ystafell ar y dde uwchben yr ystordy y cychwynwyd Ysgol Sul Tan-y-Coed yn 1888, ac yno y cynhaliwyd yr Ysgol Sul a'r 'Band of Hope' hyd 1891. Adeiladwyd Ffestri Tan-y-Coed yn 1890 a sefydlwyd yr Eglwys yn 1877. Yn 1902 yr agorwyd y capel. Mr. John Hughes oedd prif sefydlydd yr Achos yn Nghan-y-Coed ac yr oedd ef a Mrs Hughes ymysg aelodau cyntaf yr Eglwys.

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr. a Mrs. Blanchard, Llythyrdy, Tan-y-Coed ddiolch i bawb yn yr ardal a'r cylch a'u cefnogodd yn ystod eu cyfnod fel siopwyr yn y fro.

PRIODAS

Llongyfarchiadau a dymuniadau da'r ardal i Miss Veronica E. Jones, 7 Maesgerddi a Mr. Graham Spencer Roberts, Olga Terrace, Llanberis ar achlysur eu priodas. Priodwyd hwy ar Ebrill 9fed.

GERAINT ROBERTS

Llongyfarchiadau hefyd i Mr. a Mrs. Roberts, Ty'n Llwyn ar enedigaeth mab, Geraint, brawd i Sioned. Ganed Geraint ar Ebrill 7fed.

Mr. OWEN EDWIN WYNNE

Dymunwn adferiad buan i Mr. Owen Edwin Wynne, Llety Llwyd. Bu Mr. Wynne dan driniaeth lawfeddygol mewn ysbyty ym Mangor.

DARGANFOD CAMERA

Darganfuwyd camera yng nghae Bryn Cwil gan Mr. T. De Boo ar Ebrill 21. Mae'r camera yn ei feddiant ef.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Arvonias Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

BETHEL

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher, 13eg Ebrill yn yr Ysgol cafwyd noson o ffilmiau ar daith a drefnwyd gan Ferched y Wawr ddwy flynedd yn ôl i Rwsia. Dangoswyd y ffilmiau gan Mrs. Morris a Mrs. Jones o Fethesda — oedd ddigon ffodus i fod ar y trip.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Nia Parry Jones, Baladeulyn a'i ennill gan Mrs. Hughes, Ysgoldy.

Ffarweliodd y ddiwedd y noson a'r Llywydd, Mrs. Nia Parry-Jones sy'n symyd i fyw i Frongoch ger Y Bala. Diolchwyd yn fawr iawn iddi am ei gwaith diflino i'r gangen gan Mrs. Mair Price a chyflwynwyd tocyn llyfr iddi ar ran y gangen. Penderfynwyd bod y gangen yn anfon cyfraniad i apêl Eglwys Llanddeiniolen. Bydd y cyfarfod nesaf o'r gangen ar 11 o Fai am 7.30 o'r gloch.

CAE CHWARAE— Ar Ebrill 1af eleni cymerodd Cyngor Arfon y cyfrifoldeb am y cae chwarae lleol. Mae'r cae chwarae yn un o'r nifer o gaeau chwarae'r cylch a gymerwyd drosodd gan y Cyngor. Gobaith y cynghorydd Sam Jones y gosodir nifer o offer ychwanegol yn y cae yn y dyfodol agos. Diolchir i'r pwyllgor lleol am eu gwaith diwyd dros y blynyddoedd o sefydlu a chynnal y cae. Cynhelir cyfarfod olaf y pwyllgor yn yr ysgol am 8 o'r gloch

nos Fawrth y 10fed o Fai.

CLWB IEUENCTID — Nos Iau, Ebrill 28ain daeth tymor y Clwb Ieuencid i ben. Er na ddechreuwyd y tymor tan fis Ionawr bu'n dymor llwyddiannus iawn o dan arweiniad Moelwen Gwyndaf, "Gardd Ffynnon". Ymysg gweithgareddau'r tymor cafwyd ymweliad diddorol â Stiwdio Sain yn Llandwrog a noson yn y pwll nofio ym Mangor. Cymerodd y clwb ran mewn sawl cystadleuaeth a drefnwyd dan nawdd gwasanaeth Ieuencid y Sir.

Nos Iau nesaf, Mai 5ed fe gynhelir noson goffi gyda sdondinau gwerthu yn y Neuadd gyda'r elw at y Clwb.

Yn ystod yr haf gobeithir trefnu taith i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, ac ymweliad â Theatr Gwynedd a Gŵyl Bop ym Mhont-rhydfendigaid.

CLWB Y RHOS — Nos Sadwrn, Ebrill 23ain daeth tymor Clwb y Rhos i ben gyda'r cinio blynyddol ym Mhlas Tan Dinas. Y gŵr gwadd oedd Mr. Griffith Richard Jones, prifathro Ysgol y Garnedd, Bangor. Swyddogion y Clwb am y tymor nesaf fydd:

Cadeirydd: Mr. Edward Jones, Bryn Banon, Is-gadeirydd: Mr. Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Ysgrifennydd J.E. Thomas, Tan y Buarth, Trysorydd Mr. Seiriol Owen, Crud yr Awel.



CLWB Y RHOS

Etholwyd y swyddogion canlynol yng Nghlwb y Rhos am y flwyddyn 1977/78: Cadeirydd: Mr. Merfyn Hughes, Waen Deg; Trysorydd: Mr. Seiriol Owen, Crud yr Awel; Ysgrifennydd: Mr. J.E. Thomas, Tan y Buarth.

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL

— Yng nghyfarfod diweddar Pwyllgor yr Eisteddfod dewiswyd Mr. Dafydd Williams, Y Rhos yn drysorydd yr Eisteddfod. Penderfynwyd ehangu'r Eisteddfod eleni a'i chynnal mewn tri cyfarfod, Nos Wener a phrynhawn a nos Sadwrn

Penderfynwyd cyfyngu'r cystadleuthau plant yn yr Eisteddfod i blant Bethel yn unig. Gobeithia'r pwyllgor y bydd hyn yn denu llawer mwy o blant y pentref i gystadlu.

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR

Cyfarfu'r Gangen leol yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Ebrill 21. Da oedd gweld Mrs. Hannah Jones, Tawel Lan, yn ôl yn y gadair ar ôl ei hanhwylder.

Nid oedd angen cyflwyno'r wraig wadd, sef Mrs. Maria Pritchard i'r aelodau oblegid mae'n perthyn i gangen y Cwm. Ym mis Chwefror bu Mrs. Pritchard yn stiwdio Granada, Man-ceinion am ddiwrnod yn gweld rhan o 'Coronation Street' yn cael ei ffilmio. Cawsom ninnau hanes yr ymweliad ganddi, ynghyd â disgrifiadau byw iawn o'r actorion a'u gwaith. Diolchwyd iddi gan Mrs. K. Watkins, Dolwen a Mrs. Margaret Williams, Nant Forgan. Rhoddwyd gwobr y raffl a enillwyd gan Mrs. Pritchard, gan Mrs. Gwyneth Chick a Mrs. Watkins. Hwy hefyd oedd y gwestwagedd.

Etholwyd swyddogion am y tymor nesaf fel a ganlyn: Llywydd: Mrs. Verna Jones, M.Sc., Meillionen. Is-Lwydd: Mrs. Lowri Prys Williams, Godre'r Coed; Trysorydd: Mrs. Margaret Williams, Nant Forgan; Ysgrifennydd: Mrs. Gwyneth Chick, Tan-y-Bryn; Dosbarthwr Y Wawr: Mrs. Eluned Hughes, Hyfrydle; Gohebydd y Wasg: Miss Olwen Parry Jones, Gwylfa.

Trefnwyd i gael Noson Goffi ac Arwerthiant ar Fai 18fed. A'r elw tuag at y trip blynyddol a roddir i'r pensiynwyr gan Ferched y Wawr. Taer erfynnir am gefnogaeth y pentrefwyr. Ar ran yr aelodau, cydymdeimlwyd â Mrs. Verna Jones, Meillionen a'r teulu yn eu profedigaeth, a dymunwyd gwellhad buan i Mrs. Nan Rowlands, Bod Afon. Llongyfarchwyd Mrs. Gwyneth Chick ar gael ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Cymuned Ward Llanrug.

EGLWYS Y TABERNACL (A)

Ar Sul y Blodau, Mawrth 27, bedyddiwyd Dafydd Aeron, mab Mr. a Mrs. Eirwyn Williams, Llwyncoed, gan y Parch. Hugh John Hughes, gweinidog Jerusalem, Llanberis. Mae'r achlysur hwn o ddiddordeb mawr i'r eglwys oblegid ceir enw un o'i gyndeidiau ar y rhestr gyntaf o ymddiriedolwyr y Tabernacl, dros gan mlynedd yn ôl.

Ar Ebrill 25 bedyddiwyd Gareth, mab Mr. a Mrs. Dafydd Price, Tan y Graig, gan y Parch. John Owen, Llanberis. Estynnir croeso mawr i'r ddau fachgen i'r Tabernacl.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn yr ysgol ar Fai 9fed i drafod ychwanegiad at yr ysgol i'w ddefnyddio fel Canolfan i'r ardal. Disgwylir rhai o swyddogion yr Adran Addysg ynghyd â Chynghorwyr Gwynedd ac Arfon i'r drafodaeth, ac erfynnir am bresenoldeb teiliwng gan fod hyn yn fater o bwys i bawb o bentrefwyr Cwm-y-Glo.

GWAELEDD

Da gennym ddeall fod Barry, mab bychan Mr. a Mrs. R. Hughes, 10 Dolafon, yn gwella'n foddhaol wedi triniaeth mewn ysbyty. Balch ydym hefyd fod Miss Ellen Williams, Min Afon, Allt Goch yn well. Gwyddom fod amryw eraill yn cwyno. Ein cofion atoch, ac adferiad llwyr a buan i chwi i gyd.

GWASANAETH GŴYL FAIR

Yn Eglwys Sant Mihangel Llanrug y cynhaliwyd Gwasanaeth Gŵyl Fair eleni ond aeth rhai o aelodau Undeb y Mamau i ymuno ag aelodau Llanrug yn y gwasanaeth.

BEDYDD ESGOB

Brynhawn Sul y Blodau, gweinyddwyd y Sacrament o Fedydd Esob i Ruth Jones, 24 Dolafon, Rowland Aneurin Sinclair ac Owen Wyn Sinclair.

GWAELEDD

Drwg gennym ddeall fod Mrs. M.E. Hughes, Craig y Don wedi ei chipio i Ysbyty Môn ac Arfon yn dioddef oddi wrth anhwylder y galon ac eiddunwn iddi adferiad buan.

GWYRFAI 3 Rhiwlas, Bethel, Felinheli, Waen, Llanddeiniolen, Seion, Llanfairisgaer



ALAN CLOWES


(Ffynnon Wen, Bush Road Est; Felinheli)
CEIDWADWR

Alan Clowes yw dewis swyddogol Cymdeithas Geidwadol Arfon fel ymgeisydd dros ward Rhiwlas, Bethel a Llanddeiniolen.

Ymfudodd Alan a'i wraig o Sir Gaerhirfryn i'r Felinheli yn 1963, ac mae ganddynt ddau fab bychan Mae'r ddau yn ddisgyblion yn ysgol gynradd y Felinheli. Mae'r teulu yn aelodau yn Eglwys y Santes Fair yn y Felinheli.

Mae Alan Clowes yn aelod gweithgar o Glwb Ceidwadol y Gweithwyr yn Felinheli, ac yn aelod o'r pwyllgor rheoli. Mae'n hamddena trwy arddio a physgota gyda'r hogia'. Mae Alan yn 42 mlwydd oed ac yn cael ei gyflogi gan gwmni Bernard Wardle (Everflex) Cyf. fel gweinyddwr march-nata.

Mae Alan yn ymwybodol o sefyllfa drist y di-waith yn yr ardal, yn enwedig ymysg yr ifanc, ac yn sylweddoli y cyfraniad y gall y Cyngor Sir ei wneud i ddatrys rhai o'r problemau. Mae Alan yn gobeithio cyfarfod gymaint o drigolion y fro ag sydd bosibl yn ystod yr ymgyrch.



Y Parch. RICHARD JONES

(Ficerdy, Felinheli)
ANNIBYNNOL

Fel Ymgeisydd Annibynnol, cynrychioli Pobl ar y Cyngor yw fy mhriod ddyletswydd yn hytrach na chynrychioli unrhyw Blaid Wleidyddol.

Rwyf eisoes yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd yn cynrychioli ardal arall — ond yn awr gan fy mod yn byw yma yn y Felinheli ers 3 blynedd a hanner rwy'n gwbl ffyddiog y gallaf wneud llawer mwy i'r ardal fel eich Ymgeisydd Swyddogol.

Mae fy ngwraig yn dal y swydd o Weinyddes Bro Gynorthwyol.

Rwyf fi a'm teulu yn Gymry. Ordeiniwyd fi ym 1956 a gwasanaethais yn Bermo, Aberffraw, ac er Ionawr 1974 yn y Felinheli.

Daliaf Dystysgrif Cymhwyster Arweinydd Ieuencid cwrs Prifysgol Cymru, a bûm yn Arweinydd am 18 mlynedd. Bûm yn Gaplan Ieuencid ar dair mordaith Ysgolion Gogledd Cymru. Yr wyf yn Gadeirydd Pwyllgor Ieuencid a Gyrfaedd yng Ngwynedd, Cadeirydd Pwyllgor Cysylltu'r Ifanc, Cadeirydd Gofal Henoed Felinheli Cadeirydd Eisteddfod Gadeiriol Felinheli ac Aelod o Bwyllgor Ymarferwyr Teulu Gwynedd.



EMYR PRICE

(5 Tan y Ffordd, Bethel)
PLAID CYMRU

Dyma'r ymgeisydd dros Blaid Cymru.

Mae'n briod gyda thri o blant. Bu'n athro yn Ysgol Brynrefail ac yn awr mae'n uwch ddarlithydd yn Y Coleg Normal, Bangor. Graddiodd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor mewn Hanes ac Economeg. Mae ganddo brofiad helaeth mewn gwaith cyhoeddus a chymdeithasol. Mae'n ddarlithydd gyda'r W.E.A; bu'n gynrychiolydd Undeb ac mae'n aelod o Gyngor Cenedlaethol Plaid Cymru.

Dywed Mr. Price "Rwy'n sefyll yn yr etholiad er mwyn ceisio dod â gwelliannau i'r ardal. Rydym angen gwaith yn yr ardal i bobl ifanc a'r di-waith. Mae angen gofalu na thorrir ar wasanaethau i'r henoed a'r methodig ac addysg. Dylid pwyso am well ffyrdd, cyfleusterau meddygol, a theithio rhatach.

Rwyf yn ffodus y gallaf gydweithio gyda'n Haelod Seneddol, Mr. Dafydd Wigley, i ddod â gwelliannau i'r ardal, ac addawaf, pe'm dewisid, i wneud popeth posibl dros bawb yn yr ardal yn ddi-wahân".

NANT PERIS



Wrth longyfarch Mr. W. Searell Jones ar dderbyn Medal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul am dros bedwar ugain mlynedd ym Mhorthaethwy yr wythnos ddiwethaf, yr ydym yn meddwl am y llewyrch a fu ar yr Ysgol Sul yn y Nant ar hyd y blynyddoedd. Dyma lun o ddosbarth oedd yn Rehoboth dros hanner canrif yn ôl. Dim ond un sy'n fyw heddiw, sef William Davies, sydd bron â bod yn 90. Ni fydd ei sedd yn y capel byth yn wag. Mae yn y rhes flaen yn y llun, yr ail o'r chwith. Yr athro oedd y diweddar William Morris, Terfyn, sef y trydydd o'r chwith.

BEDYDD

Pnawn Sul y Blodau yn Rehoboth bedyddiwyd Gareth James, mab Helen a Tony, ac ŵyr Mr. a Mrs. O.W. Humphreys, 3 Gwastadnant. Mae'r teulu yn cartrefu yn Llundain. Amgylchiad hapus iawn oedd dod â'u cyntafanedig i hen gynefin Helen i'w fedyddio. Gweinyddwyd gan y Parch. John Owen. Bendith ar y teulu bach yw dymuniad trigolion y Nant.

GWAELEDD

Drwg gennym fel ardalwyr fod Mr. Arthur Roberts, Gwyndy wedi ei gipio i Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Wedi gwaeledd blin, balch ydym o ddeall ei fod yn teimlo'n well erbyn hyn a bod gobaith iddo gael ei symud i Fryn Seiont cyn cael dod adref yn fuan wedi cael gwellhad, ni obeithiwn. Mae llawer o gwyno yn y pentref y dyddiau hyn, a'r un yw ein dymuniad i bawb.

ANGLADD

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Owen Emrys Griffith yn eu profedigaeth o golli un oedd mor annwyl iddynt. Brodor o Fethel oedd, ond wedi byw yma yn y Nant am flynyddoedd. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys yn naear y Nant oedd mor annwyl ganddo.

CROESO

Croeso gartref i William Aaron, Cwm-aelhir, ar ôl ei daith i Wlad Canaan i ffilmio gogyfer â rhaglen gan y BBC. Cafodd amser bythgofiadwy yn ôl ei dystiolaeth.

CROESO

Peth braf yw cael rhoi croeso i deulu newydd, pan fo cymaint o ddiboblogi yn ardaloedd cefn gwlad. Croeso calon yr ardalwyr i Mr. a Mrs. Gwilym J. Roberts a'u plant, Eifion ac Eryl, i'w cartref newydd, Cerrig Drudion.

NOSWYLIO YN 101 OED

DYDD SUL, Mawrth 20fed, collodd Llanrug yr hynaf o'i thrigolion pan fu farw Mrs. Hannah Parry, Bron Haul yn Ysbyty Druid, Llangefni yn gant ag un oed.

Gwraig amryddawn iawn oedd Mrs. Hannah Parry, yn berchen ar ei holl gyneddfau bron i'r diwedd. Gresyn iddi gael ei chaethiwo i'w chadair am gymaint o flynyddoedd. Medrai ysgrifennu yn dda mewn Cymraeg a Saesneg a sgwrsio'n ddifyr yn y ddwy iaith. 'Roedd yn llawn hwyl ac yn hynod o ffraeth a digrif. Wrth fod ganddi gof mor eithriadol o glir, diddorol oedd gwrandao arni yn adrodd hanesion doniol am hen gymeriadau 'smala a drigai yn Llanrug ddiwedd y ganrif o'r blaen.

Gwraig tŷ dda a darbodus oedd hi, yn siriol a chroesawgar yn ei chartref. 'Roedd hefyd yn gymdogaes garedig, annwyl a pharod ei chymwynas.

Wrth fod ganddi lais mor swynol i ganu a dawn gynhenid i chwibanu ac efelychu, medrai ddiddanu ei theulu a'i ffrindiau yn hyfryd am amser hir.

Hoffai ganu emynau a byddai ei Llyfr Emynau wrth law ganddi bob amser.

Cafodd lawer o bleser yn gwyllo'r teledu yn enwedig rhaglenni yn dangos gwaith llaw, mentrai hithau wneud pethau a welai ac yn llwyddiannus hefyd. Bu ei thri mab yn hynod o ffyddlon iddi. Gofalent ysgrifennu ati yn gyson, a dod trosodd yn aml. Cafodd bopeth ganddynt i wneud ei bywyd yn esmwyth, a'r peth roddodd fwyaf o bleser iddi oedd y teliffon a medru siarad â'r hogiau yn Canada, ac yr oedd yn fedrus iawn yn ei ddefnyddio. Daeth y tri mab, Tom, Morus a John a dwy wraig adref i Lanrug i dalu gwrogaeth iddi ar ei phenblwydd yn gant oed, a rhai o'r wyrion a'u gwragedd hefyd, a chafodd ddiwrnod i'w gofio ym Mhlas Pen Gwaith. Ymhen blwyddyn daethant adref eto gyda'u gwragedd i dalu'r deyrnged olaf i'w mam.

Gosodwyd hi i orwedd ym medd y teulu gyda'i gŵr, a'i merch annwyl, Maggie. Wrth iddynt ddodi ei chorff yn y bedd, peth hyfryd a gogoneddus oedd clywed côr o adar yn torri allan i ganu fel pe baent yn gorfoleddu â hi.

Laura a Meirwen,

Hen ffrindiau a chymdogion o 'Bryn Moelyn'.



I Mrs. Hannah Parry yn 100 oed, Ionawr 7fed, 1976 ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis.

DINORWIG

O'R YSBYTY

Da deall fod Mr. J. Peris Roberts, 11 Maes Eilian wedi gwella ac ailddechrau gweithio ar ôl triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon. Daeth Miss Heulwen Jones, Cegin, adref o ysbyty Clatterbridge lle bu dan driniaeth. Gwellhad buan iddi.

YN YR YSBYTY

Aethpwyd â Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf i Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Dymunir gwellhad buan iddo.

DISCO

Nos Wener, 18fed o Fawrth, cynhaliwyd dawns yng Nghanolfan Gymdeithasol Dinorwig dan nawdd cangen Adloniant Adfer Dinorwig a'r Cylch. Daeth nifer o ieuenctid yr ardal at ei gilydd i fwynhau adloniant 'Disgo'r Graig' a grŵp trydanol Cymreig, 'Toc-yn Chwech'. Hyderwn y cawn wahodd y grŵp yma unwaith eto'n weddol fuan. Diolchwn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson, heb anghofio'r gynulleidfa.

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr. John Peris Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion oll, hefyd y car-edigrwydd a dderbyniodd gan y teulu, y cymdogion, a'i gyfeillion tra yn Ysbyty Môn ac Arfon, ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff yr ysbyty, yn feddygon a gweinyddesau, am eu gofal a'u gwasanaeth.

NEWID ENW

Ganol y mis newidiwyd enw'r llythyrdy yn Ninorwig o 'Fachwen' i 'Lythyrdy Dinorwig'.

CYMRODORIAETH GYFREITHIOL

Llun yw'r uchod o Mr. Alan Griffiths, Ael-y-Bryn, Tŷ Ddewi (ŵyr i'r diweddar Mr. W.R. a Mrs. Maggie Griffiths, gynt o 1 Maes Eilian). Etholwyd Alan gan Gymrodorion Coleg Exeter, Rhydychen i Gymrodoriaeth mewn Cyfraith yn y Coleg, ac mae'n darlithio ar y Gyfraith yn y coleg hwnnw. Yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr yn Rhydychen Mr. Griffiths oedd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Cadeirydd Clwb Llafur y Brifysgol ac Ysgrifennydd Cenedlaethol y Myfyrwyr Llafur. Bu'n fawr ei ddiddordeb yn yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth fel Ysgrifennydd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym.



Llawenydd a phrysurddeb

A welir ym Mhen Gwaith, Mae yma un yn dathlu Y ganfed flwydd o'i thaith, Fe anwyd Hannah Parry Yn "Eighteen Seventy Six," A chafodd nerth ac iechyd Hyd "Nineteen Seventy Six."

Mae pawb o'r bron yn 'nabod

Ein Anti Hannah ni, Oherwydd fe fu unwaith Ar Radio'r 'BBC'! Daeth Alun Williams heibio A'i raglen "Dewch am Dro"! A chanu a wnaeth Hannah A "whistio" iddo fo!

Cyrhaeddodd rhai o'r teulu

'Rôl hedfan dros y dŵr, A chroeso mawr a gawsant A llawer iawn o stŵr; Te parti a geir heddiw I bawb o'r cwmni llon, A Hannah yn y canol Un garw ydi "Hon"!

Pa faint a gewch chwi eto?

'Does neb ond Duw a ŵyr, Ond, cofiwch roi eich hunan I'w ofal Ef yn llwyr, Dymuna pawb o'r Cartref Y gorau i chwi'n awr, Hip! hip! hwre! a roddwn Pob hwyl, — a chariad mawr.

M.G. Williams
Gwylfa, Bethel.

CEUNANT

BEDYDD — Pnawn Sul Ebrill 3ydd yng Nghapel Ceunant bedyddiwyd Dylan Wyn mab Meirion Wyn a Carys Thomas, Stryd Edward, Caernarfon. Gweinyddwyd gan y Gweinidog, y Parch. W.O. Roberts.

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



Sowldiwrw Llanrug

Gwarchodwyr y wlad — yr 'Home Guard' yn Llanrug yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Faint ohonynt ydych chi yn ei 'nabod'? Y llun trwy ganiatâd Miss M. Humphreys.

Y GYMANFA FLYNYDDOL

Cynhelir Cymanfa Ysgolion Dosbarth Dinorwig a Llanberis (M C) yng Nghapel Coch ddydd Sul, 1af o Fai am 2 a 5.30. Arweinydd y Gymanfa yw Idwal Roberts, gyda Mrs. Betty Rees Evans a Hugh Peris Pritchard wrth yr organ. Ceir cyfarfod i'r plant yn y pnawn a Chymanfa yn yr hwyr.



DRAENOG YN DIOLCH I DENIS

Fedrwch chi fesur gwerth gweithiwr da, deudwch? Choelia'i fawr!

"Does 'na olwg ar y strydoedd 'ma', medda' sawl un yn Llanberis. 'Ma' chwith ar ôl Denis, ychi". Oes, debyg iawn, fe weithiodd Mr. Denis Jones, Tan Pant yn ddyfal a dirwgnach am flynyddoedd i gadw Llanberis yn lân. Neb yn sylwi ar Lanbêr glân, ond

pawb yn sylwi ar Lanbêr budr. Mae 'na giang yn dwad o gwmpas i hel 'rybish' bob hyn a hyn, ac yn ôl y Cyngor ma' hyn yn ddigonol. Ydi ma'n siwr, os nad ydych chi'n gorfod byw yn 'i ganol o.



DRAENOG PEN BIGIL YN BRESANT 'DOLIG

Chwi drigolion Llanberis sydd

wedi bod yn craffu ar ddu a gwyn ers blynyddoedd, — ewch ati'n ddiymdroi i archebu eich setiau teledu lliw. Datgelwyd mewn 'Cyfarfod Agored' yn Llanberis yn ystod y mis y bydd mast Pen Bigil yn trosglwyddo lluniau lliw i'r pentref erbyn y Nadolig! Wel, efallai fis neu ddau ar ôl hynny.

Ydio'n wir fod Mrs Jos wedi archebu teledu ar gyfer y bathrwm? Felly dwi'n dallt!

O.N.: Ysgwn i faint o ddylanwad gaiff y bocs lliw ar 'Gymdeithas Llanber'? Bydd yn ddiddorol gweld.

PENISARWAUN

RHIAN ELERI GREEN

Llongyfarchiadau y pentref i Mr. a Mrs. Ifor Ph. Green ar enedigaeth merch, sef Rhian Eleri Green, ar 4 Ebrill; chwaer i Amanda Angharad, Arfon Taliesin, Tegwyn Robert a Richard Philip.

DWY GADAIR ARALL

Enillodd Tony Elliott, Bryn Eglwys, ddwy gadair yn ystod y Pasg. Nos Wener y Groglith enillodd y naill yn Eisteddfod Llandderfel, a'r llall nos Sadwrn y Pasg yn Nasareth (Pen-ygroes). Llongyfarchiadau Tony.

Mr. WILLIAM VAUGHAN OWEN

Bu farw Mr. Owen, Gweledfa'r Wyddfa dydd Sul mewn ysbyty wedi salwch hir a phoenus. Mae cydymdeimlad y pentref yn mynd i'w wraig a'i bedair merch, Meirwen, Kathleen, Menai a Carol.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cafwyd cyfarfod yn yr ysgol nos Fawrth, Mawrth 29 dan lywyddiaeth Mrs. Eluned Jones, Cae Corniog. Daeth nifer dda ynghyd a threuliwyd noson ddifyr dros ben yng nghwmni Mr. Tom Williams o'r Waunfawr. Yr oedd Mrs. Williams, ei briod, hefyd yn bresennol. Adroddodd Mr. Williams lawer o farddoniaeth o'i waith ei hun a chanodd rai hefyd. Diolchwyd i Mr. Williams gan y Llywydd a hefyd Mrs. Percy Williams a Mrs. Nancy E. Jones. Yr oedd Miss Kathleen Jones, aelod o Sefydliad Deiniolen yn bresennol ac estynnwyd croeso iddi, a chan ei bod yn ddiwrnod ei phenblwydd cafodd gyfarchiad barddonol gan Mr. Tom Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs. Eurwen Roberts. Darparwyd y te gan

Mrs. Thomas, Bod Awen a Mrs. Williams, Meillionydd, a diolchwyd iddynt gan Mrs. Eurwen Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Ebrill 26 a disgwylir cael cwmni Mr. Vivian Jacques.

Mr. P.G.FREEMAN

Da o beth yw gweld Mr. P.G.Freeman, 11 Llys y Gwynt wedi dychwelyd o'r Ysbyty ac yn edrych yn well o lawer.

Mrs. K. WILLIAMS

Gwellhad buan i Mrs. K. Williams, 8 Llys y Gwynt. Dydi hi ddim wedi bod yn rhy dda hefo'r Bronceitus.

**E&
E.M.GREEN**

**SIOP
GRON**

PENISARWAUN

**Nwyddau Grosar
Ffrwythau a Llysiau Ffres**

**Dewis rhagorol
Croeso cartrefol**

**GELLWCH
YMDDIRIED
YN**

**JOHN
TREVOR**

**Garej Hafod
Llanrug**

**am geir newydd
ac ail law rhagorol**



WAUNFAWR

CYNGERDD — Nos Sul y Pasg daeth cynulleidfia gref i wrando ar Gôr Godre'r Garth yng Nghapel Croes y Waun. Pleser digymysg oedd gwando ar y côr hwn o dros ddeg a thrigain o leisiau yn canu dan arweiniad Mr. Wil Morus Jones o Drefor. Llywyddwyd gan Mr. Elwyn Parry o Gaerffili a chyflwynwyd yr eitemau gan Mrs. Branwen Jarvis. Gwnaed elw o £115 er budd yr Eisteddfod Ardal.

CYMANFA GANU — Nos Lun, Ebrill 18, cynhaliwyd Cymanfa Ganu'r Dosbarth yng Nghapel Rhyd-ddu. Yr arweinydd oedd Mr. Robert Jones, Tanyfron, Waunfawr a'r cyfeilydd oedd Mrs. Davies, Clogwyn Gwin, Rhyd-ddu.

EISTEDDFOD PLANT BETHEL — Ebrill 1, arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs. Gweneirys Jones, Cartrefle a Mr. I. I. Gwynedd Williams, 2 Bro Waun. Y beirniaid oedd: Cerdd: Mrs. Betty Williams, Brynaerau, Llên. ac Adrodd: Mr. Norman Williams, Lliidiart Wen, Ysgrythyr; Mrs. Gweneirys Jones, Arlunio; Mrs. Phyllis Jones, Rhoslan. Y cyfeilydd oedd Miss Eirlys Jones, Dol-erddi a'r ysgrifennydd Miss Iris Hughes, Trefeilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Ebrill 7, cafwyd arddangosfa o Waith Llaw Macrame gan Mrs. Buddug Rowlands, Trewen. Llywyddwyd gan Mrs. Morfa Evans, Preswylfa. Mrs. Foulkner enill-odd y raffl a roddwyd gan Mrs. Rowlands. Diolchwyd i bawb gan Mrs. Alice Johnstone, Tŷ Gwyn.

CYNGOR CYMUNED: Dewiswyd Mr. Elwyn Roberts, Bontnewydd yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf a Mr. Iolo Huws-Roberts, Bodrida yn Is-gadeirydd. Diolchwyd i'r Cynghorydd Sir, Mr. W. Prytherch, y ddau Gyng-horydd Dosbarth, Mr. Harry Owen a Mr. Dafydd Iwan am bob help a rodd-asant i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddwytha, ac i'r Cyn-gadeirydd, Mr. W. Vaughan Jones.

CLWB GWYRFAI — Ebrill 14, sgwrs a ffilmiau gan Mr. Selwyn Griffith, Bethel yn disgrifio i daith rownd y byd. Ebrill 28, sgwrs gan Mr. Hope, Caernarfon.

MERCHED Y WAWR — Nos Iau, Mawrth 24, noson o adloniant yng ngofal Mr. Siôn Prys Jones, pryd y cafwyd eitemau a straeon difyr gan wahanol gymeriadau'r ardal wedi eu recordio ar dâp. Llywyddwyd gan Mrs. Nellie Williams, Bryn Rhyd, Betws Garmon a diolchwyd iddo gan Mrs. M. Vaughan Jones.

YR YSGOL FEITHRIN — Mae'r Ysgol wedi ail-agor ar ôl gwylliau'r Pasg, ond y tymor hwn penderfynwyd agor yr ysgol o Un tan Dri brynhawn Mercher a phrynhawn Gwener er mwyn rhoi cyfle i'r plant sy'n mynychu'r Ysgol Gynradd ddod i'r Dosbarthiadau. Y mae lle i fwy o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd.

YR AELWYD — Aeth nifer o'r Aelodau i fwrw Sul yng Ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn i gerdded, rhwyfo a gwneud ymarferiadau yn y gampfa. Daeth tymor yr Aelwyd i ben eleni gyda pherfformiadau o ddwy ddrama fer gan Gwmni Drama'r Aelwyd. Yn ystod y noson dewiswyd Bridget Marie Hughes, 22 Bro Waun yn frenhines carnifal yr Ysgol Feithrin a gynhelir ddydd Sadwrn, Gorffennaf 16. Bydd aelodau'r Aelwyd yn mynd i weld 'Cymerwch Bwytwch' yn Theatr Gwynedd, Bangor yn ystod mis Mai.

DOSBARTH ARLUNIO — Cafwyd Arddangosfa o'r lluniau a beintwyd gan aelodau'r dosbarth yn Neuadd yr Eglwys, a bu un ohonynt, Mr. Fred Owen, yn dangos ei waith ym Medd-gelert dros Wylliau'r Pasg.

URDD EGLWYS SANT IOAN — Cafwyd rhaglen amrywiol a diddorol yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys darlithoedd a ffilmiau. Uchafbwynt y rhaglen oedd y cyflwyniad gan Gangen Caernarfon o Undeb y Mamau, dan arweiniad Mrs. Glyndwr Williams, — "Canrif o Wisgo". Fe gynhelir y cinio a'r wibdaith flynyddol yn ystod mis Mai.

PRIODASAU — Bu tair priodas yn ystod y mis, — Mr. a Mrs. Humphrey Wyn Hughes, Trefeilian; Mr. a Mrs. Gwynedd Parry (Miss Pat Jones, Glynafon) a Mr. a Mrs. Edgar Owen (Miss Carys Thomas, Haulfryn). Dymuniadau gorau i'r tri phâr.

CROESO — Croeso gartref i Mrs. Bet Lloyd Hughes, Treflan Isaf a fu'n edrych am ei theulu yng Nghalifornia; i Michael Wyn Jones, Benallt a fu am wythnos yng Ngwlad Belg gyda thîm pêl-droed Ysgol Syr Hugh Owen. i Dafydd Iwan a wahoddwyd i ganu yn San Sebastian yng Ngwlad y Basg.

DAMWEINIAU — Ar ôl damwain efo'i feic anfonwyd Carl Parry, 7 Bryngolau i'r ysbyty am driniaeth law-feddygol. Dymunwn adferiad buan iddo. Hefyd i Aeron Jones, Glyn Ceris a fu yn yr ysbyty dros nos ar ôl syrthio ym muanth yr ysgol.

CYDYMDEIMLWN — â Mr. T.H. Williams, Coed Gwydryn a Mrs. Myf-anwy Griffith, Eirianallt (colli eu mam, Mrs. Kate Williams, Eirianallt); a Mr. Arthur Griffith, Eirianallt (colli chwaer) ac â Mr. Rol Williams, Bod Gwilym (colli tad).

LLONGYFARCHIADAU — i Mr. John Hughes ar ei benodiad yn Athro Cym-raeg a Hanes yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy; i Michael Wyn Parry, Ffriddelan am ennill y fedal i rai dan 14 oed yn Arholiad Maes Llafar y Gymanfa; i Gwyn Parry, Ffriddelan a Thomas John Pritchard, 16 Trefeilian am wobrau eraill, ac i Susan Dawson ar gael ei derbyn yn gyflawn aelod o Eglwys Moreia (A) mewn gwasanaeth arbennig o dan arweiniad y Parch. Ieuan Davies yng Nghapel Salem, Caernarfon.

Y DIODDEFWYR

MAE rhif y rhai sy'n dioddef o nam meddwl yn fwy na chyfarif o ddeillion, cloffion a phawb o rai sy'n dioddef o bob nam arall.

Anodd amgyffred arwyddocâd y gwirionedd uchod, yn arbennig o gofio mai yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf y gwnaed unrhyw ymdrech o ddifrif o wynebu'r broblem.

Bellach, daeth yr ymdrechion i sylw'r cyhoedd a chyfeirir yn aml at y gwaith a wneir yn Ysgol Pen-dalar, Canolfan Segontium a Chartref Frondeg yng Nghaer-narfon. Gŵyr y cyfarwydd am ymdrechion diflino y Gymdeithas dros rai â nam meddyliol a oedd yn gyfrifol am ysgogi Cyngor Sir Arfon i drefnu'r darpariaethau.

Gŵyr y cyfarwydd hefyd mai prin ddechrau yr ydym ar y gwaith i addysgu'r cyhoedd i dderbyn y rhai â nam meddyliol fel rhan o gymdeithas.

Neilltuir un wythnos bob blwyddyn fel "Wythnos y rhai â nam meddwl" i dynnu sylw arbennig at y broblem. Manteisir ar y cyfle i gasglu arian i roi man-teision i'r rhai sy'n dioddef. Fel rhan o'r ymdrech bydd Cymdeithas Caernarfon a'r cylch yn cynnal Noson Goffi yn y Waunfawr ar nos Wener, Mehefin 3ydd. Cynhaliwyd nosweithiau

GWYRFAI 4: Bontnewydd, Caeathro, Waunfawr, Ceunant, Betws Garmon



HENRY OWEN
HILLBURN
BONTNEWYDD

EURIG WYN (Y Frenni, Waunfawr) PLAID CYMRU

Ystyriaf hi'n fraint arbennig i sefyll fel Ymgeisydd Plaid Cymru yn yr etholiad hon. Credaf mai trwy gynyddu nifer Cynghorwyr Plaid Cymru y medrwn ddyl-anwadu orau ar Lundain i ni fedru gwella ansawdd ein bywyd yma. Meddyliwch fod ein biliau dŵr yn debyg o godi eleni eto 18%. Mae hyn yn 50% yn uwch na'r cyfartaledd i bobl Lloegr. Mae 100 miliwn o alwyni y dydd yn croesi'r ffin, heb gostio'r un ddimai goch.

Cafodd y pleidiau eraill eu cyfle — ond dyblodd diweithdra, ed-winodd y gwasanaeth iechyd, gwaethygodd trafniadaeth gyh-oeddus, a dioddefodd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Mae'r ardaloedd gwledig wedi dioddef dipyn gwaeth na'r trefi mawrion mewn materion fel trafni-idaeth, gwasanaeth cymdeithasol ac addysg. Rhaid brwydro dros fuddiannau'r wlad.

Addawaf, os caf fy ethol i wneud fy ngorau i'ch cynrychioli yn anrhydeddus. Byddai'n gyfle i mi ad-dalu peth o'r caredigrwydd a brofais er pan ddeuthum i fyw i'ch plith.

tebyg yn flynyddol ers 1966 ac mae'r ardalydd wedi dangos cefn-ogaeth anhygoel yn y gorffennol. Gellir mesur maint y cyd-ymdeimlad o'r ffaith fod y swm a gasglwyd yn uwch y naill flwyddyn ar ôl y llall. Yn 1966 casglwyd £26 — llynedd gwnaed elw o £260.

Cynhelir y Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 6.30, ac os am brynu cacennau, nwyddau etc., doeth yw dod yn gynnar i gael blaen ar y dyrfa.

BETWS GARMON

YN GWELLA — Da yw gweld Miss C. Williams, Tan y Marian o gwmpas y pentref unwaith eto ar ôl ei gwaelled diweddar.

LLONGYFARCHIADAU — i Iolo Peredur Jones, Bryn Tegid ar ennill y wobr gyntaf ar adrodd yn Ysgol Segontium.

CROESO — i'n plith i Mr. a Mrs. P. Davies a'r teulu sydd newydd gartrefu yng Nghastell Cidwm. Buont yn byw yn Fron Goeddiog, Waunfawr am gyfnod cyn symud i Warrington.

GOBAITH Prifathro sy'n byw ym Methel yw chwyldroi Byd Garddio Cymru. Ychydig amser yn ôl, prynodd saith bwys o datws hadyd am £2. Pan aeth i'w plannu 'roedd y teulu wedi eu torri'n chips. Yr unig ffordd allan oedd plannu'r chips a'i obaith yw cael llwyni chips erbyn dechrau'r haf.

Am waith adeiladu RHAGOROL
am bris RHESYMBOL
cysylltwch â

B. Kavanagh

CONTRACTWYR ADEILADU

7 MILLS ROW
BLAENAU FFESTINIOG
Ffôn : 268

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS Ffôn 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Dyddiadur y Mis

Sul 1: Deiniolen: Cymanfa Ganu Ysgollion Sul Presbyteriaid Dosbarth Deiniolen yng Nghapel Ysgoldy am 2.00 a 6.00. Arweinydd — Mr. Irfon Ellis, Llanberis. **Waunfawr:** Cymanfa Ganu Dosbarth Caernarfon yng Nghapel Engedi.

Llun 2: Llanberis: Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. **Penisarwaun:** Undeb y Mamau. **Deiniolen:** Sefydliad y Merched — sgwrs ar 'Fwydlen' gan Mrs. Hughes, Porth y Gogledd.

Mawrth 3: Llanberis: Undeb y Mamau. **Waunfawr:** Cyfarfod Cyhoeddus yn yr Ysgol am 8 o'r gloch. Mr. Dafydd Wigley yn annerch.

Mercher 4: Llanberis: Clwb y Mamau — Mrs. Maria Pritchard yn sgwrsio am ei hymwelid a stiwdio 'Coronation Street'. **Waunfawr:** Merched y Wawr yn mynd i Fennelech ar wahoddiad y Gangen yno. **Deiniolen:** Cyfarfod Blynnyddol Seindorf Arian yng Ngwt y Band am 7.00.

Iau 5: Etholiad Cyngor Sir Gwynedd. **Deiniolen:** Cyfarfod y Chwirydd. **Bethel:** Noson Goffi gyda stondinau gwerthu yn y Neuadd. Yr elw er budd y Clwb Ieuencid. **Waunfawr:** Sefydliad y Merched — ymweliad Mrs. F. Treen a'r Gangen. **Llanrug:** Cymdeithas y Chwirydd Capel Mawr.

Gwener 6: **Waunfawr:** Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 7.00.

Sadwrn 7: **Plaid Lafur Dyffryn Peris:** Swper a Dawns yng Ngwesty Frenhinol Fictoria, Llanberis. **Llanrug:** Taith Gerdded Noddedig dan nawdd y Pwyllgor yr Ysgol Feithrin.

Llun 9: Llanberis: Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêldroed yn y ganolfan am 7.30. **Deiniolen:** Y Cyngor Eglwys yn cyfarfod yng Nghapel Libanus am 7.00. **Cwm-y-glo:** Cyfarfod Cyhoeddus yn yr Ysgol i drafod ychwanegiad at yr ysgol i'w defnyddio fel Canolfan i'r ardal.

Mawrth 10: Llanrug: Merched y Wawr — Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol i ddewis swyddogion. **Cwm-y-glo:** Undeb y Mamau. **Deiniolen:** Clwb yr Henoed. **Bethel:** Cyfarfod olaf Pwyllgor Cae Chwarae yn yr Ysgol am 8.00.

Mercher 11: Llanberis: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. **Bethel:** Merched y Wawr.

Iau 12: **Waunfawr:** Ffair Wanwyn Clwb Gwryfai. **Llanrug:** Clwb Blodau'r Grug yn cyfarfod. **Llanberis:** Cangen Plaid Cymru yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir sgwrs gan Mr. William Aaron, Nant Peris.

Gwener 13: Llanberis: Clwb yr Henoed

Sul 15: **Bethel:** Cymanfa Ganu dan arweiniad Mr. Emrys Lewis, Caernarfon.

Llun 16: **Deiniolen:** Merched y Wawr yn cyfarfod yng nghwmni cyfeillion o Gangen Penrhosgarnedd. **Llanberis:** Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.

Mercher 18: **Dydd Ewyllys Da.** **Llanberis:** Clwb y Mamau — cyfarfod olaf y tymor yn y Ganolfan am 7.30. pryd y dewisir swyddogion newydd. **Cwm-y-glo:** Merched y Wawr — noson goffi ac arwerthiant.

Gwener 20: **Waunfawr:** Plaid Cymru — Noson Gymdeithasol.

Llun 23: Llanberis: Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêldroed yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth 24: **Deiniolen:** Clwb yr Henoed. **Penisarwaun:** Clwb yr Heulwen. **Waunfawr:** Cyngor Cymuned

Mercher 25: Llanberis: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

Iau 26: **Waunfawr:** Clwb Gwryfai. Merched y Wawr — noson gyda Miss Phyllis Ellis a Changen Bethel. **Llanberis:** Sefydliad y Merched — sgwrs gan Mr. Huw J. Hughes.

Gwener 27: Llanberis: Clwb yr Henoed

Llun 30: Llanberis: Gwibdaith Flynyddol Clwb Methodig Eryri i Landudno.

DYDDIADAU I'W COFIO

Mehefin 3 — **Waunfawr** nos Wener am 6.30 — **Noson Goffi** yn Neuadd yr Eglwys — yr elw at Gronfa rhai â nam meddwl arnynt.

Mehefin 12-19: Wythnos Garnifal Llanrug.

Mehefin 26 — **Gorffennaf 2** — **Wythnos Garnifal Cwm-y-glo.**

Gorffennaf 2-9: Wythnos Garnifal Deiniolen

Gorffennaf 10-16: Wythnos Garnifal Llanberis

Mehefin 17: Noson Goffi dan nawdd Clwb Methodig Eryri

Mehefin 18: Gwibdaith Flynyddol Clwb Eryri

Mehefin 22: Seindorf Deiniolen yn chwarae o flaen y Frenhines ym Mangor

Mehefin 30: Taith Ddirgel Sefydliad y Merched Llanberis

MWY O WEITHWYR YR ECO!

Jane Morris,
Trefnydd Dyddiadur y Mis,
'Blodwel', Dôl Elidir,
Ffôn: Llanberis 220.



Siân Thomas,
Trefnydd Man Werthiannau
'Foelas', Stryd Newton
Ffôn: Llanberis 220



AR WERTH

GWAITH GWNIO o bob math — ffrogiau (yn cynnwys gwisgoedd priodas); sgertiau; trowsus; dillad plant; teganau meddal; pethau i'r tŷ (llenni ac yn y blaen) — i gyd am brisiau rhesymol. Cysylltwch â Mrs. Mary Elliott, "Crud y Wawr," 3, Bryn Eglwys, Penisarwaun.

Cot babi (carrycot) gyda matres. Stand i ddal y cot (neu i ddal bath). Transport i'r cot. Cadair — (baby relax) y cwbl: £6. M. Roberts, Gregynog, Llanrug, Caernarfon 3495.

Carped Axminster newydd 11' x 2'10" — yn addas ar gyfer cyntedd neu'r grisau — patrymau dail — lliw Brown/Beige. £15 o.n.o. **Carped (Broadloom)** ar gyfer ystafell wely — newydd — "foam underlay" — glas 12' x 5'7". 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun.

Tir adeiladu ar werth ym Mhenisarwaun. Mr. R. Rowlands, Glanrafon, Penisarwaun.

ATEBION CROESAIR RHIF 12

AR DRAWS:

1. Llewod; 4. Tân gwyllt; 9. Oedi; 10. Esgidiau; 11. Aber; 12. Pren; 14. Tu; 16. Cot; 21. Potel; 23. Gwirion; 25. Caneuon; 27. Hosan; 31. Wal; 32. Fo; 33. Eryr; 34. Cadw; 39. Yfed Cwrw; 41. Adwy; 43. Gwybedyn; 44. Llwyddo.

I LAWR:

1. Llais; 2. Wyneb; 3. Dacar; 4. Tagu; 5. Nid; 6. Llo; 7. Tewi; 8. Tirlun; 13. Eto; 15. Teg; 17. Tir; 18. Te; 19. Aros; 20. Corn; 21. Plas; 22. Tres; 24. Tew; 26. Nos; 28. Ol; 29. Awr; 30. Afalau; 34. Cawell; 35. Dodwy; 36. Drwg; 37. Gwan; 38. Heno; 40. Dad; 42. Yw.

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren:
CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH.


Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

I LAWR:

1. Un o bentrefi'r 'Eco' (3.1.3)
2. Pecynau (7)
3. Bob Owen ... (7)
4. Bachgen swil yn ôl y gân (5)
5. Coeden (7)
6. Astell (5)
10. Drama ar gân (5)
13. Pendefig (7)
14. Caneuon crefyddol (7)
15. Distawrwydd (7)
16. Gwneud twrw (4.3)
17. Blodyn (5)
18. Offeiriad swnllyd? (5)

Anfoner y cynigion fel arfer i:
Myrddin Owen, 32, Stryd Fawr, Llanberis.

Croesair RHIF 13



AR DRAWS:

3. "O Ben Caergybi i ben ... (7)
7. Glo wedi hanner llosgi (6)
8. Cardota (6)
9. Plismyn? (8)
11. Trawiad llygad (4)
12. Cymar ceiliog y coed (3.6)
17. Toriad mewn dilledyn (4)
18. Cyflwr rhywun pan na fydd yn rhydd (8)
19. Diwedd wythnos (6)
20. Ni cheir hwn heb y chwerw (1.5)
21. Gwneud llun (7)

ENILLYDD CROESAIR RHIF 12
A. Griffith, Tan Bwlch, Dinorwig.

ENW.....
CYFEIRIAD.....

Dychweler i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

CHWARAEON

CHWARAEWYR LLANRUG

Yn dilyn ein crynodeb o Glwb Pêl-droed Llanrug yn y rhifyn diwethaf, ceisir yma roi math o ddarlun mewn geiriau o'r rhai sy'n troi allan i gynrychioli'r Clwb ar y cae chwarae.

Mae'n rhaid sylweddoli yn y lle cyntaf nad dwsin o chwaraewyr, sef y tîm a'r 'sub', yw'r unig rai sydd ar lyfrau Clwb Pêl-droed. Mae angen pymtheg neu ragor os am sicrhau parhad safonol, yn enwedig pan fydd rhai o'r garfan wedi eu hanafu, ar wyliau, neu'n methu a chwarae am unrhyw reswm arall.

Y rhai ffyddlonaf i'r Clwb y tymor hwn yw:

NIGEL HARDWIDGE, - y gôlgeidwad. Hogyn o Fethel ydi Nigel, ac ar ei ail dymor hefo'r Clwb. Mae'n bump ar hugain mlwydd oed, ac yn sefyll ddwy-lath yn nhraed ei 'sanau. Bu'n chwarae hefo Caernarfon Utd, ac hefo'r hen YMCA cyn dod i Llanrug. Y dystiolaeth orau o'i fedr, mae'n debyg, yw'r ffaith ei fod wedi'i ddewis i gynrychioli tîm y Gynghrair am y ddwy flynedd y bu'n chwarae i Llanrug.

DAFYDD A. HORMAN yw'r cefnwr de, ac ef yw capten y Clwb. Un o gynnyrch disgleiriaf y tîm ieuencid. Mae'n ddwy ar hugain ac ar ei flwyddyn olaf yn Y Coleg Normal. Arwydd o'i deyrngarwch yw ei fod wedi aros hefo Llanrug yn hytrach nag arwyddo i dîm y coleg. Dangosodd ei allu yn ifanc iawn, a bu'n cynrychioli Ysgolion Sir Gaernarfon a Gogledd Cymru tra'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail. Mae medalau a chwpanau ieuencid Cymru, Gogledd Cymru a'r Cwpan Alves yn dyst o'i lwyddiant yn y cyfnod hwnnw.

Dwy ar hugain oed yw **HUGH HUGHES** hefyd. Mae'n byw yng Nghaernarfon ac ar ei ail dymor hefo'r Clwb. Mae'n gefnwr tal a chryf, un o oreuon y Gynghrair. Bu'n cynrychioli'r Gynghrair am y dair blynedd ddiwethaf. Bu'n chwarae i dimau Nefyn, Caernarfon Utd, a'r YMCA cyn ymuno â Llanrug.

Bu **ALAN VINCENT OWEN** yn un o gefnwyr Llanrug am y naw tymor diwethaf. Mae'n 33 bellach, ond yn mynd cystal ag erioed. Mae hefyd yn un o'r ddau sy'n rhedeg y tîm ieuencid, ac mae llawer o ffrwyth profiad gan-

ddo i'w drosglwyddo iddynt. Rwy'n amcangyfrif fod o leiaf ddeg cwpan ganddo, wedi eu hennill gyda Tryfan Rangers (dyna brofi ei fod yn hen chwaraewr, ynte?), Mountain Rangers, Llanberis, y YMCA, ac wrth gwrs, hefo Llanrug.

Mae **KEN JONES**, un arall o'r cefnwyr, wedi cynrychioli'r Gynghrair deirgwaith hefyd. Un o Gaernarfon ydi Ken, ac ar ei dymor cyntaf hefo'r Clwb. Mae'n un ar hugain oed ac yn chwaraewr cryf ar yr ochr chwith. Bu ar lyfrau Caernarfon Utd, tref Caernarfon, Dyffryn Nantlle a Phwllheli.

RHEON THOMAS o Llanrug yw'r cefnwr canolog. Myfyriwr ugain oed yn y Brifysgol ydi o, ac mae wedi troi allan i Lanberis ac i dimau'r Brifysgol. Bu yntau hefyd yn cynrychioli bechgyn ysgol ac ieuencid Gogledd Cymru, ac yn un o gynnyrch tîm ieuencid y pentref.

Mae dwy seren ddisglair iawn yn disgleirio yng nghanol y cae iddynt, a phrofiad helaeth o'r gêm broffesiynol gan y ddau. Mae **KEN OWEN** o Gaernarfon yn bedair ar hugain, ac ar ôl cynrychioli Ysgolion Arfon a Gogledd Cymru, fe'i bachwyd gan Arsenal fel prentis. Oddi yno aeth i Watford, Wealdstone a Dunstable cyn dod adref at dîm Caernarfon, ac wedyn Llanrug. Bu'n llwyddiannus yn Watford gan ennill iddo ei hun dlysau yng Nghynghreiriau Llundain. Enillodd y Cwpan Alves hefyd hefo tref Caernarfon.

Bu gyrfa **GARETH R. THOMAS** yn bur debyg i un Ken, ond os rhywbeth yn fwy llwyddiannus. Un o Gaernarfon ydi

SAETHU AM DARIAN



Llongyfarchiadau i Emyr Jones, 44 Glanffynnon Llanrug ar ennill Cystadleuaeth Saethu Targedau Dosbarth II dan nawdd Prifysgol Bangor. Derbyniodd darian y GASP am ei lwyddiant. Mae'n aelod o Glwb Saethu Sir Fôn. Dyma ei lwyddiant mawr cyntaf a gobeithio nad yr olaf.

yntau hefyd ac yn ddwy ar hugain oed. Dewiswyd ef bedair gwaith i dîm bechgyn ysgol Cymru, a bu'n cynrychioli tîm ieuencid Cymru bedair gwaith. I Arsenal yr aeth yntau o'r ysgol, a bu yno am dair blynedd. Mae ar ei dymor cyntaf yn Llanrug, a bu'n chwarae dros Watford, Crystal Palace, tref Caernarfon, Pwllheli a Dyffryn Nantlle cyn cyrraedd yno. Mae medalau a chwpanau lu ganddo.

Hwyrach eich bod fel ardalwyr yn fwy cyfarwydd o weld **KEITH DAVIES** o Rosgadfan mewn fan yn gwerthu hufen ia, ond ar bnawn Sadwrn gwneud y 'rounds' o'r caeau pêl-droed fydd ei hanes, fel un o ganolwyr Llanrug. Mae'n ugain oed, ar ei ail dymor ac eisoes wedi chwarae dros Mountain Rangers a Llanberis.

Mae **ANEURIN ROBERTS**, athro ysgol a'i gartref yn Neiniolen, a **JOHN CADWALADR** (sydd bellach wedi ymfudo i fyw i Stoke) wedi chwarae yng nghanol y-cae dros y clwb hefyd.

JACKIE SMITH o Dalysarn yw'r mwyaf profiadol o'r blaenwyr. Mae'n ddeg ar hugain oed bellach ond yn flaenwr canol tal a chryf. Bu'n chwarae i 12 clwb cyn ymuno â Llanrug, ac mae wedi cynrychioli'r Gynghrair lawer tro, a chanddo gasgliad o ugain neu fwy o fedalau a thlysau eraill.

Un o'r ardal ydi **JOHN IAN JONES**, sydd bellach yn byw yn

Llanwnda. Mae'n chwech ar hugain oed ac yn athro yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Hwn yw ei dymor cyntaf hefo Llanrug er iddo chwarae iddynt o'r blaen yn ysbeidiol. Bu hefyd ar lyfrau'r Coleg Normal, Pwllheli, Caernarfon Utd, Llandegfan a Llanberis, ac mae nifer o dlysau ganddo yn dystion o'i lwyddiant.

Babi'r tîm ydi **HEFIN PRITCHARD** o Llanrug. Mae'n ddeunaw oed ac yn un arall a 'fagwyd' yn y tîm ieuencid. Prin ydi ei brofiad hyd yma, ond mae digon o allu ynddo, a gallai droi allan yn un o sêr y dyfodol.

Dydi **ARWEL THOMAS** o Llanrug ond pedair ar bymtheg ychwaith, ond mae hwn y trydydd tymor iddo hefo'r clwb, ac yn y cyfnod hwnnw enillodd fedal y Cwpanau Deanfield a chwpan am fod yn ail yn y gystadleuaeth Alves.

Mae chwaraewyr eraill wedi cynrychioli'r clwb, ond wedi symud i glybiau eraill.

Maent wedi sgorio'r nifer fwyaf o golau yn y Gynghrair, a gobeithir cyrraedd y cant cyn diwedd y tymor. Mae angen 13 arall yn y pedair gêm sydd heb eu chwarae.

Sgorwyr amlaf y tymor fu:

Jackie Smith	20
John Ian Jones	18
Hefin Pritchard	16
John Cadwaladr	8

Gobeithir yn ein rhifyn nesaf gynnwys ychydig o hanes Clwb Pêl-droed a chwaraewyr Llanberis.



Dyma'r tîm fu'n cynrychioli'r Clwb yn erbyn Harlech ar Fawrth 19. Yn sefyll: Wavell Roberts (Cymorth Cyntaf); Keith Davies; Nigel Hardwidge; Rheon Thomas; Gareth R. Thomas; Arwel Thomas; Allan V. Owen; Hugh Hughes. Yn y blaen: John Ian Jones; Jackie Smith; Dafydd Horman; Hefin Pritchard a Ken Owen.

LLANRUG

Dwy gêm yn unig yn ystod y mis, y gyntaf ar yr 2 yn erbyn Llanberis.

Llanberis 3 Llanrug 1

Gêm wael o safon isel. Ray Harding yn ei gêm gyntaf ar ôl cael gwaharddiad rhag chwarae yn sgorio'r tair i Lanberis

Ebrill 16

UCNW 'B' 0 Llanrug 8

Y Brifysgol yn cael trafferth i droi tîm allan, a Llanrug hwythau'r gorfod cynnwys dau aelod o'r pwyllgor. 'Doedd dim gwaith i amddiffynfa Llanrug a'r unig gic gafodd Nigel Hardwidge yn y gôl oedd i sgorio oddi ar y smotyn gwyn! Y sgorwyr eraill oedd Aneurin Roberts (2), Hefin Pritchard (2), Arwel Thomas, A.V. Owen a D.W. Thomas.

Yng nghinio blynyddol Clwb Pêl-droed Llanrug a gynhaliwyd yng Nghlynnog ar y 23ain o Ebrill cyflwynwyd cloc tywydd i Mr. Bryn Davies fel arwydd o werthfawrogiad o'i waith fel ysgrifennydd y clwb ers y tymor 1972-73.

Anrhegwyd Mr. George Orrit hefyd ar achlysur ei ymdeoliad o'i waith gyda MANWEB.

Pêl-droed

LLANBERIS

Ebrill 9

Llanberis 5 Harlech 7

Ia, saith gôl yn eu herbyn ar eu clwt eu hunain - 'roedd yr amddiffynfa fel gogor. Ray Harding (2), Kelvin Jones (2) a Gwilym Williams yn sgorio iddynt

Ebrill 16

Nefyn 1 Llanberis 2

Iwan Evans a Gwilym Williams yn sgorio ond efo pob parch i Nefyn, fe ddylai Llanbêr fod wedi sgorio dwsin.

Ebrill 23ain

Mountain Rangers 3 Llanberis 1

Ffarwelio â'r Cwpan Alves yn y rownd gyntaf yn y Bontnewydd. Gwnaeth yr hogia fwy na digon i ennill ond yn methu'n lân â rhoi'r bêl yn y rhwyd er pwyso trwm drwy gydol y gêm. 'Roedd blaenwyr y Rangers yn llwyddo bron ar bob cynnig, ond gôl Iwan Evans fu unig gysur Llanberis. Mae mis prysur o'u blaenau a bydd yn rhaid iddynt chwarae dwy neu dair gêm yr wythnos i gwblhau eu galwadau cyn diwedd y tymor.